



# Adroddiad Archwilio Blynyddol yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol (AGLI) 2016-2017

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

## Adroddiad Archwilio'r Awdurdod Goruchwylio Lleol

Fersiwn:	1
Cyhoeddwyd gyntaf:	21 Mawrth 2017
Diweddarwyd:	
Paratowyd gan:	Dee Davies, Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol ar gyfer Gogledd-orllewin Lloegr

### ***Rhestr Ddosbarthu:***

*Goruchwylwyr Bydwreigedd*

*Pennaeth Bydwreigiaeth*

*Cyfarwyddwr Nyrsio*

*Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd*

**Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru: [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)**

## Tudalen Gynnwys

<b>Tudalen Gynnwys</b> .....	<b>3</b>
<b>1 Cyflwyniad</b> .....	<b>4</b>
<b>2 Safonau Goruchwyliaeth</b> .....	<b>4</b>
<b>3 Nodau Archwiliad yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol</b> .....	<b>5</b>
<b>4 Methodoleg</b> .....	<b>5</b>
<b>5 Y Broses Archwilio</b> .....	<b>5</b>
<b>6 Ymweliad Archwilio Blynyddol yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol</b> .....	<b>6</b>
<b>7 Asesiad o'r Graddau y Cydymffurfir â Rheolau a Safonau Bydwragedd (NMC 2012)</b> .....	<b>7</b>
<b>8 Canfyddiadau'r Adolygydd Lleyg</b> .....	<b>20</b>
<b>9 Crynodeb o'r Argymhellion</b> .....	<b>23</b>
<b>10 Monitro</b> .....	<b>24</b>
<b>11 Casgliad</b> .....	<b>25</b>
<b>12 Atodiadau</b> .....	<b>26</b>
12.1 Atodiad 1 – Rhaglen .....	26
12.2 Atodiad 2 – Holiadur yr AGLI .....	28
12.3 Atodiad 3 – Holiadur yr Adolygydd Lleyg .....	42

## 1 Cyflwyniad

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) sy'n pennu'r rheolau a'r safonau ar gyfer swyddogaeth yr Awdurdodau Goruchwylio Lleol (AGLI) a'r broses o oruchwylio bydwagedd. Mae Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol (Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI) yn atebol yn broffesiynol i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Swyddogaeth Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI yw sicrhau bod proses statudol o oruchwylio bydwagedd ar waith er mwyn sicrhau bod gofal bydwreigiaeth diogel o ansawdd uchel yn cael ei ddarparu i fenywod.

Mae Goruchwylwyr Bydwagedd yn cael eu penodi gan yr AGLI, y mae ei swyddogaeth yn rhan o Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Prif gyfrifoldeb yr AGLI yw diogelu'r cyhoedd drwy fonitro ansawdd ymarfer bydwreigiaeth drwy gyfrwng goruchwyliaeth statudol ar fydwragedd. Bydd yr AGLI yn penodi Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI i gyflawni swyddogaethau'r AGLI.

Mae'n ofynnol i bob bydwraig sy'n ymarfer yn y Deyrnas Unedig fod â Goruchwylwr Bydwagedd a enwir. Bydwraig yw Goruchwylwr Bydwagedd, sydd wedi cymhwyso ers o leiaf dair blynedd ac sydd wedi dilyn cwrs paratoi mewn goruchwyliaeth ar fydwragedd (Rheol 8, NMC 2012). Mae pob goruchwylwr yn goruchwylio tua 15 o fydwragedd ac mae'n unigolyn y gall bydwagedd droi ato i gael cyngor, arweiniad a chymorth. Bydd y Goruchwylwr Bydwagedd yn monitro gofal drwy gwrdd â phob bydwraig yn flynyddol (Rheol 9, NMC 2012), archwilio dull y bydwagedd o gadw cofnodion, ac ymchwilio i unrhyw adroddiadau ynghylch problemau/pryderon o ran ymarfer. Maent hefyd yn gyfrifol am ymchwilio i unrhyw ddigwyddiadau difrifol ac adrodd amdanynt i Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI (Rheol 10, NMC 2012).

Mae Rheol 7 y ddogfen *Midwives Rules and Standards* (NMC 2012) yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI gwblhau archwiliad blynyddol o ymarfer bydwagedd yn ei ardal, a'r oruchwyliaeth arnynt, er mwyn sicrhau bod gofynion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cael eu cyflawni. Mae'r archwiliad blynyddol yn cyfrannu at adroddiad blynyddol yr Awdurdod Goruchwylio Lleol i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Rheol 13).

## 2 Safonau Goruchwyliaeth

1. Mae Goruchwylwyr Bydwagedd ar gael i gynnig arweiniad a chymorth i fenywod sy'n defnyddio gwasanaeth mamolaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ran darparu gofal sy'n canolbwyntio ar fenywod.
2. Mae Goruchwylwyr Bydwagedd yn atebol i'r Awdurdod Goruchwylio Lleol yn uniongyrchol am bob mater sy'n ymwneud â'r oruchwyliaeth statudol ar fydwragedd ac mae fframwaith lleol ar gael i ategu'r swyddogaeth statudol.
3. Mae Goruchwylwyr Bydwagedd yn darparu arweinyddiaeth broffesiynol ac yn meithrin darpar arweinwyr.
4. Mae Goruchwylwyr Bydwagedd yn gyfeillgar ac yn hygyrch i fydwragedd i'w cynorthwyo gyda'u hymarfer.
5. Mae Goruchwylwyr Bydwagedd yn helpu bydwagedd i ddarparu amgylchedd diogel ar gyfer ymarfer bydwreigiaeth sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth.

### 3 Nodau Archwiliad yr Awdurdod Goruchwylio Lleol

Diben archwiliad blynyddol 2016–17 yw:

- Adolygu'r dystiolaeth sy'n dangos bod y safonau ar gyfer goruchwylio'n cael eu bodloni
- Sicrhau bod systemau a phrosesau perthnasol ar waith er diogelwch mamau a babanod
- Adolygu effaith goruchwyliaeth ar ymarfer bydwreigiaeth
- Sicrhau bod ymarfer bydwreigiaeth wedi'i seilio ar dystiolaeth a'i fod yn ymateb i anghenion menywod.

### 4 Methodoleg

Fel rhan o'r broses o archwilio safonau'r AGLI, bydd tîm archwilio'r AGLI yn gwirio tystiolaeth. Bydd hunanadolygiad yn cael ei gynnal drwy wneud cyflwyniad i'r tîm adolygu, a bydd hwn yn crybwyll llwyddiannau a heriau. Cydnabyddir bod hunanadolygu'n ddull pwerus sy'n ysgogi datblygiad proffesiynol ac sy'n creu ymwybyddiaeth o atebolrwydd personol.

Bydd y tîm adolygu'n cwblhau adolygiad o'r dystiolaeth cyn yr archwiliad, gan gynnwys adolygiad gan gymheiriaid o'r graddau y mae'r goruchwyliwr bydwagedd unigol yn cydymffurfio â phroses ymchwilio'r AGLI.

Ym mlwyddyn derfynol hon y drefn o gael yr AGLI i archwilio goruchwyliaeth statudol, mae'r dull a ddefnyddir yn canolbwyntio ar y rôl statudol greiddiol a ddisgrifir yn nogfen Rheolau a Safonau Bydwagedd.

### 5 Y Broses Archwilio

Ar gyfer 2016–17, roedd y broses archwilio'n cynnwys yr elfennau canlynol:

- Adolygiad o'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn unol ag asesiad o'r graddau y cydymffurfir â Rheolau a Safonau Bydwagedd (NMC 2012), gan gynnwys adolygiad o'r cynllun gweithredu i gyflawni argymhellion yr AGLI yn sgil ymweliad archwilio 2015/16
- Ymweliad archwilio, gan gynnwys holi bydwagedd a menywod.

## 6 Ymweliad Archwilio Blynyddol yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol

Cynhaliwyd ymweliad archwilio blynyddol yr AGLI ar 4 Tachwedd 2016 gan Dee Davies, Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI, wedi'i chynorthwyo gan Denise King, bydwraig AGLI, Elaine Derrick, Goruchwyliwr Cymheiriaid Bydwagedd, a Louise Woolley, cynrychiolydd lleyg.

Roedd tîm goruchwyllo Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cynnwys pedwar Goruchwyliwr Bydwagedd, a oedd yn gyfartal â 2.2 o Oruchwylwyr Bydwagedd cyfwerth ag amser llawn.

Mae gan bob Goruchwyliwr Bydwagedd gweithredol lwyth achosion o fydwagedd ac mae pob un yn cymryd rhan yn y gwaith o ddarparu cyngor a chymorth goruchwyllo 24 awr y dydd. Ar hyn o bryd, mae'r llwyth achosion yn gyfartal â chymhareb o oruchwylwyr i fydwagedd o 1:11.

Roedd yr holl Oruchwylwyr Bydwagedd yn cyfrannu at y gwaith o goladu'r dystiolaeth a datblygu'r cyflwyniad ar gyfer yr ymweliad archwilio. Roedd hyn yn cynnwys y timau, llwyddiannau a'r heriau yn ystod y flwyddyn 2015–16.

## 7 Asesiad o'r Graddau y Cydymffurfir â Rheolau a Safonau Bydwragedd (NMC 2012)

<b>Rheol 4 Hysbysiadau gan yr Awdurdod Goruchwylio Lleol [cyfieithiad o'r rheolau]</b>	
<p><b>Rheol</b></p> <p>(1) Rhaid i bob awdurdod goruchwylio lleol yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon gyhoeddi:</p> <p style="padding-left: 20px;">(a) enw a chyfeiriad ei swyddog bydweigiaeth y mae hysbysiad o dan Reol 3(2) neu (3) i'w gyflwyno iddo;</p> <p style="padding-left: 20px;">(b) y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid i fydwraig roi hysbysiad o dan Reol 3(3).</p> <p>(1A) Rhaid i'r awdurdod goruchwylio lleol yn Lloegr gyhoeddi:</p> <p style="padding-left: 20px;">(a) enw a chyfeiriad pob un o'i swyddogion bydweigiaeth y mae hysbysiad o dan Reol 3(2) neu (3) i'w gyflwyno i un ohonynt;</p> <p style="padding-left: 20px;">(b) y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid i fydwraig roi hysbysiad o dan Reol 3(3).</p> <p>(2) Rhaid i bob awdurdod goruchwylio lleol roi gwybod i'r Cyngor, ar y ffurf ac yn ôl yr amllder y mae'r Cyngor yn gofyn amdanynt, am unrhyw hysbysiad a roddir iddo o dan Reol 3.</p> <p><b>Safon AGLI</b></p> <p>1 Er mwyn cyflawni'r gofynion statudol ar gyfer goruchwylio bydwragedd, rhaid i awdurdod goruchwylio lleol sicrhau:</p> <p style="padding-left: 20px;">1.1 Bod hysbysiadau o'r bwriad i ymarfer yn cael eu hanfon at y Cyngor Nyrsio a Bydweigiaeth erbyn y dyddiad cyflwyno blynyddol a bennir gan y Cyngor.</p> <p style="padding-left: 20px;">1.2 Bod hysbysiadau o'r bwriad i ymarfer a geir ar ôl y dyddiad cyflwyno blynyddol yn cael eu hanfon at y Cyngor Nyrsio a Bydweigiaeth cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.</p>	
<b>Disgwyliad yr AGLI</b>	<b>Tystiolaeth a Chanfyddiadau Archwilio</b>
<p>Byddai ffurflenni ar gyfer hysbysu am y bwriad i ymarfer, wedi'u personoli, wedi cael eu hanfon at bob bydwaig y mae ei henw'n ymddangos ar y gofrestr effeithiol fel ar 31 Mawrth 2015. Er mwyn i fydwragedd fod yn gymwys i gyflwyno hysbysiad o'r bwriad i ymarfer, rhaid iddynt fod â chofrestriad effeithiol ar y rhan o gofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydweigiaeth sy'n ymwneud â bydwragedd a bod yn bwriadu ymarfer bydweigiaeth.</p> <p>Cyn i'r bwriad i ymarfer gael ei lofnodi, rhaid i'r Goruchwyliwr Bydwragedd a enwir fod wedi cynnal asesiad o'r graddau y mae'r fydwraig wedi cydymffurfio â gofynion y Cyngor Nyrsio a Bydweigiaeth i gynnal cofrestriad bydweigiaeth a rhaid cadarnhau ei bod</p>	<p>Canfuwyd bod pob bydwaig wedi cyflwyno'i ffurflen ynghylch y Bwriad i Ymarfer i oruchwyliwr ac yn gymwys i ymarfer ar gofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydweigiaeth.</p> <p>Roedd y tîm yn gallu mynegi prosesau clir a chadarn ar gyfer cyflwyno hysbysiadau am y bwriad i ymarfer. Mae goruchwylwyr bydwragedd yn sicrhau bod bydwragedd yn cydymffurfio â safonau addysg ac ymarfer ôl-gofrestru cyn lofnodi eu hysbysiad am y bwriad i ymarfer, drwy gyfeirio at gofnodion eu hadolygiad blynyddol unigol, sy'n cynnwys gwybodaeth am eu datblygiad proffesiynol parhaus a'u horiau ymarfer.</p> <p>Bu 100% o'r bydwragedd yn destun adolygiad blynyddol yn y 12 mis cyn yr archwiliad, sy'n cydymffurfio â'r gofyniad</p>

<p>yn gymwys i ymarfer yn fydwraig. Rhaid i'r Goruchwyliwr Bydwagedd a enwir ddogfennu'r dystiolaeth y mae wedi ei hadolygu ar gyfer pob bydwraig gan nodi sut y mae'n bodloni gofynion addysg ac ymarfer ar ôl cofrestru (PREP) y Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth o ran 35 awr o weithgarwch dysgu (Datblygiad Proffesiynol Parhaus) a 450 awr o ymarfer cofrestredig ym mhob cylch Hysbysu am Ymarfer tair blynedd (gellir cynnal yr asesiad hwn yn ystod yr adolygiad blynyddol).</p> <p>Dylai Goruchwylwyr Bydwagedd ddefnyddio safonau addysg ac ymarfer ôl-gofrestru'r Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth yn gyfarwyddyd.</p>	<p>bod 100% o'r bydwagedd cymwys wedi cael adolygiad blynyddol.</p>
--	---

**Arferion Nodedig**

**Mae'r tîm wedi bod yn cynorthwyo bydwagedd gyda'r gwaith o ailddilysu, ac mae'r drafodaeth ynglŷn â pharatoi ar gyfer ailddilysu wedi cael ei chynnwys yn yr adolygiadau goruchwyllo blynyddol.**

**Tystiolaeth gan fydwragedd cymunedol a oedd yn cadarnhau y byddai'r Goruchwyliwr Bydwagedd a enwir yn cael ei ddefnyddio i ategu'r broses ailddilysu.**

**Roedd hyn yn dangos bod goruchwylwyr yn adnodd hanfodol ar gyfer yr holl fydwragedd sy'n cynorthwyo yn y gwaith o weithredu newidiadau cenedlaethol i gofrestrriad bydwagedd.**

**Meysydd i'w gwella**

**Ddim yn berthnasol**

**Canlyniad**

**Rheol 4 – Bodlonwyd**

**Rheol 6 Cofnodion**

**Rheol**

(1) Rhaid i fydwraig, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, sicrhau bod pob cofnod sy'n ymwneud â'r



gofal neu'r cyngor a roddir i fenyw neu'r gofal a roddir i faban, ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r gofal hwnnw:

- (a) yn cael ei drosglwyddo i gyflogwr y fydwraig er mwyn cadw'r cofnod yn ddiogel; neu
  - (b) yn cael ei gadw'n ddiogel gan y fydwraig ei hun os yw'n hunangyflogedig: ond os nad yw'r fydwraig yn gallu gwneud hyn, yn cael ei drosglwyddo i'r awdurdod goruchwylio lleol yng nghyswllt ei phrif ardal ymarfer ddaearyddol i'w gadw'n ddiogel.
- (2) Pan nad yw bydwraig wedi'i chofrestru gyda'r Cyngor mwyach, rhaid iddi sicrhau, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, fod pob cofnod sy'n gysylltiedig â'r gofal neu'r cyngor a roddir i fenyw neu'r gofal a roddir i faban yn cael ei drosglwyddo i'w gadw'n ddiogel i'r awdurdod goruchwylio lleol a oedd, cyn i'w chofrestrriad ddod i ben, yn awdurdod goruchwylio lleol i'r fydwraig yng nghyswllt ei phrif ardal ymarfer ddaearyddol.

### Safon AGLI

1 Rhaid i awdurdod goruchwylio lleol gyhoeddi canllawiau lleol ar gyfer trosglwyddo cofnodion bydwreigiaeth o fydwragedd hunangyflogedig, a ddylai gynnwys:

- 1.1 Pryd y mae'r cofnodion i'w trosglwyddo.
- 1.2 I bwy y mae'r cofnodion i'w trosglwyddo.
- 1.3 Dulliau o sicrhau bod cofnodion yn cael eu hanfon yn ddiogel.
- 1.4 Dogfennau i gofnodi trosglwyddiad o'r fath.

### Y Safon Bydwreagedd

- 1 Rhaid i bob cofnod sy'n gysylltiedig â gofal y fenyw neu'r baban gael ei gadw'n ddiogel am 25 mlynedd. Mae hyn yn cynnwys dyddiaduron gwaith os ydynt yn cynnwys gwybodaeth glinigol.
- 2 Dylai bydwreagedd sy'n hunangyflogedig sicrhau y gall menywod gael mynediad at eu cofnodion, a dylent eu hysbysu am leoliad eu cofnodion os yw'r rhain yn cael eu trosglwyddo i'r awdurdod goruchwylio lleol.

### Disgwyliad yr AGLI

Mae bydwreagedd yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw gofnodion sy'n cynnwys gwybodaeth y gellir ei defnyddio i adnabod unigolyn a/neu wybodaeth glinigol yn cael eu cadw'n ddiogel (mae hyn yn cynnwys dyddiaduron gwaith).

Rhaid i Oruchwylwyr Bydwreagedd roi gwybod i fydwragedd sy'n ymarfer yn hunangyflogedig pryd y dylent drosglwyddo cofnodion i'r AGLI a rhoi gwybod iddynt am bolisi Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth Awdurdodau Goruchwylio Lleol y DU ynghylch trosglwyddo cofnodion bydwreigiaeth ar gyfer bydwreagedd hunangyflogedig.

### Tystiolaeth a Chanfyddiadau Archwilio

Yn yr ymweliad archwilio, canfuwyd bod pob cofnod mamolaeth yn cael ei gadw'n ddiogel. Cynhaliodd yr archwilwyr cymheiriaid hapwiriad o fannau storio nodiadau o fewn unedau mamolaeth ar ddiwrnod yr arolygiad.

Mae'r polisi cofnodion sefydliadol yn cynnwys manylion am y gofyniad i gadw cofnodion mamolaeth am 25 mlynedd.

Nid oes unrhyw fydwragedd annibynnol sydd angen Goruchwylwr Bydwreagedd.

### Arferion Nodedig

**Roedd proses ar waith ar gyfer trosglwyddo cofnodion goruchwylio i AGIC**

### Meysydd i'w gwella

**Ddim yn berthnasol**

### Canlyniad

## Rheol 6 – Bodlonwyd

## Rheol 7 Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol

### Rheol

(1) Rhaid i bob awdurdod goruchwylio lleol yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, yn unol ag unrhyw safonau a bennir gan y Cyngor o dan erthygl 43(3) o'r Gorchymyn, benodi swyddog bydwreigiaeth sy'n bodloni'r amodau perthnasol ac a fydd yn gyfrifol am arfer ei swyddogaethau mewn cysylltiad â goruchwylio bydwagedd sy'n ymarfer yn ei ardal.

(1A) Rhaid i'r awdurdod goruchwylio lleol yn Lloegr, yn unol ag unrhyw safonau a bennir gan y Cyngor o dan erthygl 43(3) o'r Gorchymyn, benodi nifer ddigonol o swyddogion bydwreigiaeth sy'n bodloni'r amodau perthnasol ac a fydd yn gyfrifol am arfer ei swyddogaethau mewn cysylltiad â goruchwylio bydwagedd sy'n ymarfer yn ei ardal.

(2) Yr amodau perthnasol y sonnir amdanynt ym mharagraffau (1) ac (1A) yw bod rhaid i swyddog bydwreigiaeth:

(a) fod yn fydwraig sy'n ymarfer; a

(b) cyflawni'r safonau gofynnol o ran profiad ac addysg ar gyfer swydd swyddog bydwreigiaeth fel y'u pennir gan y Cyngor o bryd i'w gilydd.

### Safonau AGLI

1 Er mwyn cyflawni ei swyddogaeth oruchwylio drwy swyddog bydwreigiaeth yr awdurdod goruchwylio lleol, rhaid i'r awdurdod goruchwylio lleol:

- 1.1 Ddefnyddio manyleb person a meini prawf creiddiol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth wrth benodi swyddog bydwreigiaeth yr awdurdod goruchwylio lleol.
- 1.2 Cynnwys person a enwebwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a bydwraig sydd â phrofiad priodol yn y broses o ddewis a phenodi.
- 1.3 Rheoli perfformiad swyddog bydwreigiaeth penodedig yr awdurdod goruchwylio lleol drwy gyfrwng arfarniadau (blynyddol) rheolaidd a sicrhau ei fod yn cyflawni ei swydd yn effeithlon, yn effeithiol ac mewn ffordd sy'n sicrhau diogelwch ymarfer bydwreigiaeth yn ei ardal.
- 1.4 Darparu digon o adnoddau i alluogi swyddog bydwreigiaeth awdurdod goruchwylio lleol i gyflawni'r swyddogaeth oruchwylio statudol.

2 Er mwyn sicrhau bod gofynion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cael eu cyflawni, rhaid i'r awdurdod goruchwylio lleol alluogi swyddog bydwreigiaeth yr awdurdod goruchwylio lleol i wneud yr hyn a ganlyn:

- 2.1 Gan ddefnyddio fframwaith priodol, cwblhau archwiliad blynyddol o'r oruchwyliaeth ar fydwragedd yn ei ardal.
- 2.2 Monitro ymarfer goruchwylwyr bydwagedd fel rhan o'r broses o gynnal a gwella ansawdd y ddarpariaeth o oruchwyliaeth statudol ar fydwragedd.
- 2.3 Cynnwys menywod sy'n defnyddio gwasanaethau bydwagedd yn y broses o sicrhau effeithiolrwydd yr oruchwyliaeth ar fydwragedd.

3 Rhaid peidio â dirprwyo swydd swyddog bydwreigiaeth yr awdurdod goruchwylio lleol.

4 Rhaid i swyddog bydwreigiaeth yr awdurdod goruchwylio lleol beidio â gweithredu'n oruchwylwr bydwagedd.

### Canllawiau

- 1 Mae swyddog bydwreigiaeth yr awdurdod goruchwylio lleol yn chwarae rhan hollbwysig mewn llywodraethu clinigol drwy sicrhau bod safonau'r oruchwyliaeth ar fydwragedd ac ymarfer bydwreigiaeth yn bodloni'r rhai y mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn nodi eu bod yn ofynnol. Mae goruchwyliaeth ar fydwragedd wedi'i chysylltu'n agos â llywodraethu clinigol a dylai fod yn rhan annatod o brosesau llywodraethu y tu mewn i'r awdurdod goruchwylio lleol.
- 2 Dylai swyddog bydwreigiaeth yr awdurdod goruchwylio lleol hyrwyddo'r drefn o fod yn agored ac yn dryloyw wrth oruchwylio bydwagedd. Mae'r swydd yn un ddiuedd gan nad yw'n cynrychioli buddiannau unrhyw ddarparwr gwasanaethau iechyd.
- 3 Dylai menywod allu cael gafael ar swyddog bydwreigiaeth yr awdurdod goruchwylio lleol yn uniongyrchol os ydynt am drafod unrhyw agwedd ar eu gofal nad ydynt yn teimlo ei bod wedi cael sylw drwy gyfryngau eraill.
- 4 Dylai swyddog bydwreigiaeth yr awdurdod goruchwylio lleol sicrhau bod goruchwylwyr bydwagedd ar gael i gynnig arweiniad a chymorth i fenywod sy'n defnyddio gwasanaethau mamolaeth a bod y

gwasanaethau hyn yn ymateb i anghenion menywod sy'n agored i niwed a all ei chael yn anos cael gafael ar ofal.

### Disgwyliad yr AGLI

Bydd y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn hwyluso gwaith Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI o gwblhau archwiliad blynyddol o'r oruchwyliaeth ar fydwragedd yn ei ardal.

Rhaid i Oruchwylwyr Bydwragedd gynnwys y menywod sy'n defnyddio gwasanaethau bydwragedd ac ymgysylltu â nhw wrth sicrhau effeithiolrwydd yr oruchwyliaeth ar fydwragedd.

Rhaid i Oruchwylwyr Bydwragedd fod ar gael i gynnig arweiniad a chymorth i fenywod sy'n defnyddio gwasanaethau mamolaeth. Dylai'r gwasanaethau hyn ymateb i anghenion menywod sy'n agored i niwed a all ei chael yn anos cael gafael ar ofal.

### Tystiolaeth a Chanfyddiadau Archwilio

Mae'r cynllun gweithredu o gyfnod archwilio 2014/15 wedi'i adolygu a'i fonitro mewn cyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd.

Cynhaliwyd archwiliad blynyddol yr AGLI ar gyfer blwyddyn ymarfer 2015/2016.

Roedd tystiolaeth bod cynnydd wedi'i wneud yn ôl argymhellion archwiliad blaenorol yr AGLI.

Bu'r tîm archwilio'n adolygu gwefan y bwrdd iechyd, a oedd yn cynnwys ystod o wybodaeth llawn croeso i fenywod, gan gynnwys pryd a sut i alw Goruchwylwyr Bydwragedd, a dolenni i amrywiaeth o wybodaeth ddefnyddiol.

Mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymgysylltu'n dda â'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth, gan gynnwys menywod sy'n agored i niwed a all ei chael yn anos cael gafael ar ofal.

### Arferion Nodedig

**Mae menywod yn derbyn cymorth o fewn dull amlddisgyblaethol, gyda'r Fydwraig Ymgynghorol yn arwain ac yn cynorthwyo menywod yn y gwaith o gynllunio gofal cymhleth. Cyfraniad y goruchwilydd o fewn y broses hon yw cynorthwyo bydwragedd i ddarparu gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer menywod sydd ag anghenion cymhleth, yn enwedig os yw'r fenyw'n gofyn i esgor gartref lle mae risgiau'n hysbys.**

### Meysydd i'w gwella

Ddim yn berthnasol

### Canlyniad

**Rheol 7 – Bodlonwyd**

## Rheol 8 Goruchwylwyr Bydwragedd

### Rheol

- (1) Rhaid i awdurdod goruchwylwyr lleol benodi'r hyn y mae'r Cyngor yn ei ystyried yn nifer ddigonol o oruchwylwyr bydwragedd i arfer goruchwyliaeth ar fydwragedd sy'n ymarfer yn ei ardal.
- (2) Rhaid i oruchwylwr bydwragedd:
  - (a) fod yn fydwrraig sy'n ymarfer; a
  - (b) cyflawni'r safonau gofynnol o ran profiad ac addysg ar gyfer swydd goruchwylwr bydwragedd fel y'u pennir gan y Cyngor o bryd i'w gilydd.
- (3) Ar ôl ei phenodi, rhaid i oruchwylwr bydwragedd gwblhau'r cyfnodau dysgu perthnasol hynny sy'n gysylltiedig â'r oruchwyliaeth ar fydwragedd y bydd y Cyngor yn eu gwneud yn ofynnol o bryd i'w gilydd.

### Safonau'r AGLI

- 1 Mae goruchwylwyr bydwragedd yn cael eu penodi gan yr awdurdod goruchwylwyr lleol ac maent yn atebol iddo am bob mater sy'n gysylltiedig â'r oruchwyliaeth statudol ar fydwragedd. Rhaid i'r awdurdod goruchwylwyr lleol:
  - 1.1 Gyhoeddi polisi sy'n nodi ei feini prawf a'i weithdrefnau ar gyfer penodi unrhyw oruchwylwr bydwragedd newydd yn ei ardal.
  - 1.2 Cynnal rhestr gyfoes o'r goruchwylwyr bydwragedd yn ei ardal.
  - 1.3 Sicrhau y darperir o leiaf chwe awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus fesul blwyddyn o ymarfer.
- 2 Er mwyn cael ei phenodi am y tro cyntaf yn oruchwylwr bydwragedd, rhaid i fydwrraig:
  - 2.1 Feddu ar o leiaf dair blynedd o brofiad yn fydwrraig sy'n ymarfer. Rhaid i o leiaf un o'r blynedd hynny fod yn y cyfnod o ddwy flynedd yn syth cyn y dyddiad penodi cyntaf.
- 3 Rhaid iddi hefyd fod naill ai:
  - 3.1 Wedi cwblhau'n llwyddiannus rhaglen addysg gymeradwy ar gyfer paratoi goruchwylwyr bydwragedd yn y cyfnod o dair blynedd yn syth cyn y dyddiad penodi cyntaf; neu
  - 3.2 Pan fo mwy na thair blynedd, ond llai na phum mlynedd, wedi mynd heibio ers iddi gwblhau'n llwyddiannus rhaglen addysg gymeradwy ar gyfer paratoi goruchwylwyr bydwragedd, wedi cydymffurfio â'r gofynion o ran datblygiad proffesiynol parhaus i oruchwylwyr bydwragedd y cyfeirir atynt ym mharagraff 1.3.
- 4 Ar gyfer unrhyw benodiad dilynol yn oruchwylwr bydwragedd, rhaid iddi fod yn fydwrraig sy'n ymarfer, a:
  - 4.1 Bod wedi ymarfer yn oruchwylwr bydwragedd neu'n swyddog bydwreigiaeth awdurdod goruchwylwyr lleol yn y cyfnod o dair blynedd yn syth cyn y dyddiad penodi dilynol; neu
  - 4.2 Pan nad yw ond wedi ymarfer yn oruchwylwr bydwragedd neu'n swyddog bydwreigiaeth awdurdod goruchwylwyr lleol mewn cyfnod sy'n fwy na thair blynedd ond yn llai na phum mlynedd yn syth cyn y dyddiad penodi dilynol, fod wedi llwyddo hefyd i gydymffurfio â'r gofynion datblygiad proffesiynol parhaus i oruchwylwyr bydwragedd y cyfeirir atynt ym mharagraff 1.3.
- 5 Rhaid i oruchwylwr bydwragedd allu bodloni'r cymwyseddau a nodir mewn Safonau ynghylch paratoi goruchwylwyr bydwragedd a'u hymarfer (NMC 2006).

### Disgwyliad yr AGLI

Rhaid i unrhyw fydwragedd sy'n gwneud cwrs Paratoi Goruchwylwyr Bydwragedd fod wedi mynd trwy broses ddethol yr AGLI.

Rhaid i bob Goruchwylwr Bydwragedd ddangos ei fod yn gallu cyflawni'r cymwyseddau a nodir yn Safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012) ynghylch Paratoi Goruchwylwyr

### Tystiolaeth a Chanfyddiadau Archwilio

Mae'r broses o enwebu, dewis a phenodi Goruchwylwyr Bydwragedd yn mynd rhagddi yn ôl canllawiau'r AGLI.

Mae holl aelodau'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd wedi cwblhau'r gweithgareddau addysg ac arfer ôl-gofrestru gofynnol. Mae pob aelod o'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd wedi asesu ei gymhwysedd ei hun i gyflawni'r rôl, ac

<p>Bydwagedd.</p> <p>Mae rhestr gyfredol o Oruchwylwyr Bydwagedd ar gael ar gronfa ddata'r AGLI a bydd yn cael ei chyflwyno yn adroddiad archwilio'r AGLI.</p>	<p>mae ganddo gynllun i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion dysgu.</p> <p>Mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwagedd yn sicrhau bod Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI wedi cael gwybod am bob achos o ganiatáu absenoldeb o'r swydd a phob ymddiswyddiad. Ar adeg yr archwiliad, roedd y rhestr o Oruchwylwyr Bydwagedd wedi'u penodi ar gronfa ddata'r AGLI yn gywir.</p>
<p><b>Arferion Nodedig</b></p>	
<p><b>Mae Goruchwylwyr Bydwagedd wedi atgyfnerthu eu gwaith tîm ac wedi gwella eu gweladwyedd clinigol. Mae'r tîm yn canolbwyntio ar ddatblygu'r setiau sgiliau, drwy geisio cyfleoedd i ymgysylltu â'r gwasanaeth mamolaeth a dylanwadu arno.</b></p> <p><b>O 2017, bydd y tîm yn ymweld â lleoliad pob swyddfa bydwagedd cymunedol ar gyfer trafodaeth grŵp – gan wella mynediad a gweladwyedd.</b></p> <p><b>Dylid cydnabod y tîm goruchwylwyr am ddatblygu model a ystyrir gan rai bydwagedd yn fodel cosbol, yn fodel lle yr ystyrir bod y goruchwylwyr yn hawdd mynd atynt ac yn gefnogol (roedd hyn yn amlwg o adborth bydwagedd).</b></p>	
<p><b>Meysydd i'w gwella</b></p>	
<p><b>Canlyniad</b></p>	
<p><b>Rheol 8 – Bodlonwyd</b></p>	

<p><b>Rheol 9 Cyfrifoldebau'r Awdurdod Goruchwyllo Lleol ynghylch Goruchwyllo Bydwagedd</b></p>
<p><b>Rheol</b></p> <p>Rhaid i awdurdod goruchwyllo lleol sicrhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) bod pob bydwraig sy'n ymarfer yn ei ardal â goruchwylwr bydwagedd a enwir o blith y goruchwylwyr bydwagedd a benodwyd gan yr awdurdod goruchwyllo lleol yng nghyswllt ei phrif ardal ymarfer ddaearyddol;</li> <li>(b) o leiaf unwaith y flwyddyn, y bydd goruchwylwr bydwagedd yn cwrdd â phob bydwraig y mae'n oruchwylwr bydwagedd a enwir iddi er mwyn adolygu ymarfer y bydwraig ac i ganfod ei hanghenion o ran addysg;</li> <li>(c) bod pob goruchwylwr bydwagedd yn ei ardal yn cynnal cofnodion o'i gweithgareddau goruchwyllo, gan gynnwys unrhyw gyfarfod â bydwraig; a</li> <li>(d) bod pob bydwraig sy'n ymarfer yn ei ardal â mynediad 24 awr at oruchwylwr bydwagedd p'un ai'r</li> </ul>

goruchwyliwr a enwir sydd gan y fydwraig yw hwnnw neu oruchwyliwr bydwragedd arall.

### Safonau'r AGLI

1 Rhaid i awdurdod goruchwyllo lleol:

1.1 Sicrhau bod fframwaith lleol yn bodoli i ddarparu:

1.1.1 Goruchwyllo deg ac effeithiol ar gyfer pob bydwraig sy'n gweithio yn yr awdurdod goruchwyllo lleol.

1.1.2 Cymorth ar gyfer myfyrwyr-fydwagedd i'w galluogi i gael mynediad at oruchwyliwr bydwragedd.

1.2 Sicrhau bod y gymhareb o ran nifer y bydwragedd i bob goruchwyliwr bydwragedd yn adlewyrchu'r amgylchiadau a'r angen lleol ac nad yw'n peryglu diogelwch menywod. Fel arfer, ni fydd y gymhareb hon uwchlaw 1:15.

1.3 Gosod strategaeth i alluogi cyfathrebu effeithiol rhwng pob goruchwyliwr bydwragedd. Dylai hyn gynnwys cyfathrebu â goruchwylwyr mewn awdurdodau goruchwyllo lleol eraill.

1.4 Monitro a sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu darparu i alluogi goruchwylwyr bydwragedd i gyflawni eu swydd.

1.5 Cyhoeddi canllawiau i sicrhau cysondeb yn y dull a fabwysiadir gan oruchwylwyr bydwragedd yn ei ardal ar gyfer ymdrin â'r adolygiad blynyddol o ymarfer bydwaig. Rhaid i'r rhain gynnwys bod y goruchwyliwr yn ymgymryd ag asesiad o'r graddau y mae'r fydwaig yn cydymffurfio â'r gofynion i gynnal cofrestriad bydweigiaeth. 1.6 Sicrhau bod systemau lleol ar gael i alluogi goruchwylwyr bydwragedd i gynnal cofnodion ynghylch eu holl weithgareddau goruchwyllo, ac i gadw'r cofnodion hynny'n ddiogel.

Disgwyliadau'r AGLI	Tystiolaeth a Chanfyddiadau Archwilio
<p>Mae fframwaith lleol ynghylch goruchwyllo.</p> <p>Rhaid i bob myfyriwr-fydwaig gael mynediad at Oruchwyliwr Bydwragedd a dylai fod systemau lleol at y diben hwn.</p> <p>Cymhareb o 1:15 (mae hon yn cael ei haddasu os oes Goruchwyliwr Bydwragedd llawn amser neu os rhoddir amser ychwanegol). Bydd Swyddog Bydweigiaeth yr AGLI yn rhaeadru gwybodaeth i bob Goruchwyliwr Bydwragedd.</p> <p>Dylid adolygu adnoddau ar gyfer goruchwyllo yn ystod pob cyfarfod Goruchwylwyr Bydwragedd, a hysbysu Swyddog Bydweigiaeth yr AGLI yn uniongyrchol am unrhyw bryderon sy'n cael eu lleisio.</p> <p>Mae adolygiadau blynyddol yn seiliedig ar bolisi Fforwm Swyddogion Bydweigiaeth Awdurdodau Goruchwyllo Lleol y DU.</p> <p>Mae systemau lleol wedi cael eu datblygu i sicrhau bod gan Oruchwylwyr</p>	<p>Mae'r tîm ar gael ac yn hygyrch 24 awr y dydd drwy system ar alwad.</p> <p>Mae rotâu ac arnynt fanylion cyswllt ar gael ar gyfer bydwragedd yn yr ardaloedd clinigol, ac mae'r broses ynglŷn â sut i gysylltu â Goruchwyliwr Bydwragedd ar wefan y bwrdd iechyd.</p> <p>Roedd y tîm yn gallu dangos bod presenoldeb mewn cyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd lleol ar draws y tîm yn 75%.</p> <p>Mae gan bob bydwaig Oruchwyliwr Bydwragedd a enwir, a gwnaeth cronfa ddata'r AGLI a chroeswirio â'r sefydliad bydweigiaeth ddangos tystiolaeth o hynny.</p> <p>Mae Goruchwyliwr Bydwragedd yn cael ei ddyrannu i fyfyrwyr-fydwagedd.</p> <p>Dau gysylltiad â myfyrwyr ym mhob grŵp blwyddyn ym Mhrifysgol Caerdydd. Roedd y grŵp Goruchwylwyr Bydwragedd wedi cwblhau sesiynau 'addysgu' wedi'u safoni ar gyfer pob myfyriwr ar draws Cymru i sicrhau</p>

<p>Bydwragedd systemau diogel i storio unrhyw gofnodion goruchwyllo.</p>	<p>cysondeb ar gyfer pob myfyriwr.</p> <p>Y gymhareb Goruchwylwyr Bydwragedd i fydwragedd yw 1:11, sydd o fewn y gymhareb a argymhellir o 1:15, ac mae'r llwythi achosion yn weddol gyfartal.</p> <p>Mae system gadarn ar waith ar gyfer rhaedru gwybodaeth o Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI i bob Goruchwylwr Bydwragedd.</p> <p>Mae pob adolygiad blynyddol yn cael ei gynnal yn unol â Pholisi Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth Awdurdodau Goruchwyllo Lleol y DU, a chafodd hyn ei gadarnhau drwy gyfrwng hapwiriad o gronfa ddata'r AGLI.</p> <p>Mae cofnodion goruchwyllo'n cael eu cadw naill ai mewn copi electronig ar gronfa ddata'r AGLI neu ar systemau TG Llywodraeth Cymru, neu mewn copi caled mewn swyddfa Goruchwylwyr Bydwragedd sydd o dan glo o fewn y bwrdd iechyd.</p>
--	--

### Arferion Nodedig

**Cyflwyniad ar gadw cofnodion misol gan Oruchwylwyr Bydwragedd ar ddiwrnod hyfforddiant gorfodol. Mae hwn yn cynnwys nodiadau archwilio bydwragedd a thrafodaethau grŵp.**

**Ar hyn o bryd, mae Goruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro yn gweithio ar ddull archwilio Cymru gyfan i sicrhau cysondeb ar draws Cymru. Mae hyn yn dangos gallu'r tîm i ddod ar draws deunydd darllen a thystiolaeth broffesiynol i ategu datblygiad gwasanaeth.**

**Gwnaeth goruchwylwyr cymheiriaid bydwragedd gadarnhau bod y myfyrwyr-fydwragedd yn dweud bod goruchwylwyr wedi ymweld â'r brifysgol i drafod goruchwyliaeth, a'u bod hefyd wedi darparu sesiwn addysgol ar gadw cofnodion.**

### Meysydd i'w gwella

**Ddim yn berthnasol**

### Canlyniad



## Rheol 9 – Bodlonwyd

### Rheol 10 Cyhoeddi Gweithdrefnau Awdurdodau Goruchwylio Lleol

#### Rheol

Rhaid i bob awdurdod goruchwylio lleol gyhoeddi ei weithdrefn ar gyfer:

- (a) rhoi gwybod am bob digwyddiad niweidiol sy'n gysylltiedig ag ymarfer bydwreigiaeth neu honiadau o ffitrwydd diffygiol i ymarfer yn erbyn bydwreigedd sy'n ymarfer yn ei ardal;
- (b) ymchwilio i unrhyw adroddiadau a wneir o dan baragraff (a); ac
- (c) ymdrin â chwynion neu honiadau o ffitrwydd diffygiol i ymarfer yn erbyn ei swyddog bydwreigiaeth neu oruchwylwyr bydwreigedd yn ei ardal.

#### Rhoi gwybod am ddigwyddiadau niweidiol, cwynion neu bryderon sy'n gysylltiedig ag ymarfer bydwreigiaeth

##### Safon AGLI

1 Rhaid i awdurdodau goruchwylio lleol ddatblygu system gyda chyflogwyr bydwreigedd a bydwreigedd hunangyflogedig i sicrhau bod swyddog bydwreigiaeth awdurdod goruchwylio lleol yn cael ei hysbysu am bob digwyddiad niweidiol, cwyn neu bryder sy'n gysylltiedig ag ymarfer bydwreigiaeth neu honiadau o ffitrwydd diffygiol i ymarfer yn erbyn bydwraig.

#### Ymchwiliadau goruchwylio

##### Safon AGLI

1 Rhaid i awdurdodau goruchwylio lleol gyhoeddi canllawiau ar gyfer ymchwilio i ddigwyddiadau, cwynion neu bryderon sy'n gysylltiedig ag ymarfer bydwreigiaeth neu honiadau o ffitrwydd diffygiol i ymarfer yn erbyn bydwraig. Rhaid i'r canllawiau hyn:

- 1.1 Ddarparu ar gyfer dull agored, tryloyw, teg ac amserol, sy'n dangos prosesau gwneud penderfyniadau cadarn sy'n gwrthsefyll gwaith craffu allanol.
- 1.2 Rhoi cyfle i'r fydwraig gymryd rhan yn yr ymchwiliad.
- 1.3 Nodi'r camau gofynnol a'r canlyniadau posibl yn dilyn ymchwiliad.
- 1.4 Darparu ar gyfer proses apeliadau.

#### Disgwyliad yr AGLI

Dylai fod cofnod o bob ymchwiliad a gynhaliwyd, ei ganlyniad, a'r amser a gymerwyd i'w gwblhau. Dylai fod tystiolaeth o waith adolygu rheolaidd o'r ymchwiliadau ac unrhyw themâu sy'n dod i'r amlwg o ran ymarfer bydwreigiaeth.

Dylai argymhellion gwasanaeth sy'n datblygu o ymchwiliadau gael eu huwchgyfeirio at y cyflogwr a'u monitro gan y tîm Goruchwylwyr Bydwreigedd.

Mae'r tîm goruchwylio yn gwybod am bob digwyddiad a chwyn sy'n tynnu sylw at bryderon am yr ymarfer bydwreigiaeth a geir yn y gwasanaeth. Rhoddir gwybod i'r AGLI am Ddigwyddiadau Difrifol. Mae tystiolaeth o waith adolygu systematig o ymarfer bydwreigiaeth pan fo'n ofynnol.

#### Tystiolaeth a Chanfyddiadau Archwilio

Mae'r strategaeth rheoli risg mamolaeth yn disgrifio'n gywir rôl y Goruchwylwyr Bydwreigedd a'i rôl o fewn agenda diogelwch cleifion.

Mae Goruchwylwyr Bydwreigedd yn mynychu cyfarfodydd llywodraethu mamolaeth, adolygiadau o ddigwyddiadau a'r grŵp polisi, ac yn cyfrannu atynt.

Mae system effeithiol er mwyn i Oruchwylwyr Bydwreigedd gael ei hysbysu am bob digwyddiad niweidiol ym maes mamolaeth, sy'n golygu y gellir adolygu'n brydlon, cwblhau 'dull gwneud penderfyniadau' pan nodir hynny, a dechrau ymchwiliad goruchwylio.

Mae'r AGLI yn cymryd rhan yn y broses

Dylai fod rhyngwyneb effeithiol, tryloyw, sy'n cael ei rannu, rhwng goruchwyliaeth a llywodraethu clinigol.

hon, mae'n goruchwyllo adroddiadau ymchwilio, ac mae'n cytuno ar unrhyw argymhellion a wneir ar gyfer bydwragedd o ganlyniad i ymchwiliad goruchwyllo.

Tystiolaeth glir o adolygiadau achos ac adolygiadau SBAR ar i-Share (system Llywodraeth Cymru).

Mae ymchwiliadau goruchwyllo'n cael eu rhannu o fewn y tîm i sicrhau bod y llwyth gwaith yn deg, lleihau tuedd a chynnig y cymorth gorau i'r fydwraig. Mae'r tîm yn dilyn ei broses a'i gynnydd yn erbyn polisi Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth Awdurdodau Goruchwyllo Lleol y DU ac mae'n cydymffurfio ym mhob maes ar wahân i amseroldeb.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu pum ymchwiliad trawsffiniol a oedd yn cynnwys cyfanswm o 14 bydwraig. Ni chafodd yr un o'r ymchwiliadau hyn eu cwblhau o fewn yr amserlen o 60 diwrnod.

Mae system gadarn ar gyfer dilyn ymchwiliadau y mae pob Goruchwylwr Bydwragedd yn ei defnyddio'n gyson.

Caiff canfyddiadau ymchwiliadau eu trafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd fel y gellir canfod tueddiadau a gweithredu unrhyw wersi drwy newid arferion a chynllunio camau.

Caiff y rheolwyr eu holi ynghylch unrhyw argymhellion sefydliadol sy'n deillio o ymchwiliadau goruchwyllo.

### Arferion Nodedig

**Roedd y holl ddogfennau ymchwiliadau ar gael ac yn cael eu storio'n ddiogel. Mae Pennaeth Bydwreigiaeth yn cael cyfarfod misol gyda'r Goruchwylwyr Bydwragedd, ac mae'r fydwraig lywodraethu hefyd yn mynychu.**

**Dywedodd y goruchwylwyr eu bod yn hyderus eu bod yn cael eu hysbysu am bob digwyddiad difrifol sy'n digwydd o fewn y bwrdd iechyd. Mae unrhyw**

**bryderon ynghylch arfer bydwragedd yn cael eu hasesu gan oruchwyliwr gan ddefnyddio dull gwneud penderfyniadau, ac ar ôl i'r asesiad gael ei gwblhau, mae'n cael ei anfon at dîm yr Awdurdod Goruchwylio Lleol.**

## **Canlyniad**

### **Rheol 10 – Angen gwelliant**

- **Dylai'r holl ymchwiliadau goruchwylio gael eu cwblhau o fewn 60 diwrnod. Pan fydd ymchwiliad yn cael ei oedi am resymau allanol, dylid gweithredu *canllawiau rhewi amserlenni* Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth Awdurdodau Goruchwylio Lleol y DU. Cydnabyddir bod hon yn broblem i Gymru gyfan.**

## 8 Canfyddiadau'r Adolygydd Lleyg

Cyn yr archwiliad, cynhaliodd yr adolygydd lleyg ymchwil mewn perthynas â gwefan y bwrdd iechyd a gwybodaeth o'r switsfwrdd ffôn ynglŷn â goruchwyliaeth. Yn ystod yr archwiliad, roedd yr adolygydd lleyg yn gweithio wrth ochr y Goruchwylwr Bydwagedd allanol, a chyfwelodd â defnyddwyr gwasanaeth mewn clinigau cynenedigol ac ôl-enedigol ar wardiau, gan drafod y gofal roeddent wedi'i dderbyn a'u hymwybyddiaeth o oruchwyliaeth. Roedd tîm yr adolygydd lleyg yn arsylwi ar yr amgylchedd clinigol cyffredinol, ac yn asesu gweladwyedd goruchwyliaeth mewn ardaloedd cyhoeddus a staff. Roedd y tîm hefyd yn cynnal cyfweiliadau â bydwagedd, staff clinigol uwch ac uwch-reolwyr, Cadeirydd y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth, a myfyrwyr-fydwagedd.

### **Archwiliad ffôn**

Cyn yr archwiliad, cysylltodd yr adolygydd lleyg â switsfwrdd yr ysbyty a gofyn i siarad â Goruchwylwr Bydwagedd. Nid oedd yr ymdrech yn llwyddiannus a chytunodd y tîm archwilio roi cynnig arall. Fe arweiniodd yr ail gynnyg ar gysylltu â Goruchwylwr Bydwagedd, ond ni roddwyd y rhif 24 awr.

### **Defnyddwyr y gwasanaeth**

Cyfwelwyd â saith menyw yn ystod yr archwiliad. Cyfwelwyd â rhai cyn yr enedigaeth a rhai ar ôl yr enedigaeth. Nid oedd yr un ohonynt wedi clywed am Oruchwyliaeth Bydwagedd yn flaenorol. Pan ofynnwyd â phwy y byddent wedi cysylltu pe bai ganddynt bryder, roedd gan bob menyw syniadau am aelodau eraill o staff y bwrdd iechyd y gallent fynd atynt. Yn nodweddiadol, gwnaethant ddweud y byddent yn ffonio eu tîm cymunedol/uned asesu/Uned dan Arweiniad Bydwagedd.

Roedd yr holl fenywod y cyfwelwyd â nhw'n teimlo eu bod wedi derbyn gofal rhagorol a chyson, ac yn cael eu bydwagedd cymunedol yn barod iawn eu cymwynas ac yn hawdd mynd atynt. Dywedwyd bod nifer o fydwagedd yn cadw mewn cysylltiad â'r menywod drwy gydol eu beichiogrwydd, a oedd yn gwneud iddynt deimlo bod pobl yn cyfathrebu'n dda â nhw ac yn rhoi teimlad o sicrwydd iddynt. Roedd disgrifiadau o driniaeth gan staff cynenedigol, rhyngenedigol ac ôl-enedigol yn gadarnhaol iawn. Cafodd myfyrwyr-fydwagedd a oedd wedi mynychu genedigaethau eu canmol am eu cyfraniad hefyd. Roedd menywod yn teimlo bod eu dewisiadau ynglŷn â'r enedigaeth wedi cael eu parchu gan bob aelod o staff, gydag un fenyw'n sôn am gymorth y fydwraig ymgynghorol wrth gael toriad dewisol yn dilyn cael toriad Cesaraid brys blaenorol.

Nodwyd hefyd fod cymorth gyda sefydlu arferion bwydo o'r fron yn dda iawn, gyda dim ond un defnyddiwr yn dweud ei bod wedi derbyn rhywfaint o wybodaeth wahanol gan ddau aelod o staff. Ar y cyfan, dywedodd menywod fod ansawdd eu perthynas â'u bydwagedd yn uchel iawn, a bod y gwasanaeth wedi mynd uwchben a thu hwnt i'r hyn roedd dyletswydd yn galw amdano ar gyfer y menywod pan oeddent yn feichiog, yn esgor, ac wrth sefydlu arferion ar gyfer bwydo o'r fron a gofal cynnar eu babanod.

Roedd gwelliannau posibl a awgrymwyd gan fenywod a'u teuluoedd yn cynnwys neges gyson ynglŷn â bwydo o'r fron a sut byddai honno'n effeithio ar ba bryd y

byddai menyw'n cael ei rhyddhau. Cafodd triniaeth dwy fenyw ei hoedi heb esboniad, a byddent wedi gwerthfawrogi deall pam – er enghraifft, roedd menywod eraill i'w gweld yn mynd i'r ystafell esgor cyn iddyn nhw fynd. Problem arall a nodwyd oedd yr adeg pan oedd teulu wedi derbyn eu gofal cynenedigol i gleifion allanol, a oedd wedi golygu rhagor o deithio.

### **Cadeirydd Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth**

Mae gan gadeirydd Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth ddealltwriaeth o rôl goruchwyliaeth wedi'i diffinio'n dda, a nododd fod y pwyllgor yn cefnogi gweithio diogel ar gyfer bydwragedd a rhieni, yn cynnig cymorth i fydwragedd sy'n ansicr am bethau, ac yn cefnogi teuluoedd sydd angen eglurhad ynglŷn â phryderon.

Dywedodd cadeirydd cyfarfod Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth fod presenoldeb goruchwylwyr wedi sbarduno nifer o drafodaethau, a'u bod wedi rhoi cyngor proffesiynol ynglŷn â nifer o destunau megis esgor gartref, wrth ochr adolygu'r pecyn gofal ôl-enedigol.

Roedd cadeirydd Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth yn ymwybodol bod newidiadau yn yr arfaeth ar gyfer goruchwyllo bydwragedd yn y dyfodol, ond nid oedd yn ymwybodol o fanylion y rhain. Gwnaethom ofyn sut y gallai'r bwrdd iechyd gyfathrebu'r wybodaeth hon, ac roedd hi'n credu y gallai taflenni neu'r cyfryngau cymdeithasol fod yn opsiwn. Mae gan y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth dudalen Facebook ac maent yn rhannu llawer o wybodaeth yn y ffordd hon. Nid yw Twitter a chyfryngau cymdeithasol eraill yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd, ond gallai hyn fod yn ddull arall ar gyfer rhannu gwybodaeth. Mae hi'n awyddus iawn bod rôl Goruchwylwyr Bydwragedd yn cael ei chadw, ac mae hi'n hyderus y bydd hi.

### **Amgylchedd clinigol**

Roedd yr amgylcheddau clinigol drwyddo draw wedi'u cynnal a'u cadw'n dda ac yn broffesiynol. Mae'r Uned o dan Arweiniad Bydwragedd wedi cael ei theilwra mewn modd ystyrlon i anghenion uniongyrchol menywod a'u teuluoedd. Dywedodd un defnyddiwr gwasanaeth y canlynol: *“Dw i'n dwlu ar yr ystafell a dw i'n hapus y gall fy mab [fair blwydd oed] ddod i mewn a rhedeg o gwmpas heb amharu ar bobl eraill.”* Roedd llawer o feddwl a sensitifrwydd wedi'u rhoi i'r Ystafell Teardrop, lle y gall teuluoedd aros ar ôl colled. Mae gwybodaeth berthnasol ar gael am oruchwyliaeth, sy'n addas ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, yn yr ardaloedd cynenedigol ac ôl-enedigol, a bwrdd ar gyfer staff yn yr uned o dan arweiniad obstetryddion, sydd wedi'i anelu'n llai at ddefnyddwyr gwasanaeth, gan na fyddent yn cael llawer o gyfle i fynd heibio i'r bwrdd hwnnw.

### **Gwefan**

Ar adeg yr archwiliad, nid oedd gwefan y bwrdd iechyd yn cynnwys gwybodaeth am oruchwyliaeth bydwragedd, na manylion rhif ar alwad 24 awr Cymru gyfan. Dywedwyd wrth y tîm adolygu fod hyn yn ymwneud â newidiadau ehangach i'r wefan, ac y byddai'n cael ei archwilio. Byddai'n ddefnyddiol darparu dolen i adran Goruchwyllo Bydwragedd yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol ar wefan AGIC.

### **Myfyrwyr-fydwragedd**

Roedd gan y ddwy fyfyrwr-fydwraig y cyfwelwyd â nhw wybodaeth weithiol dda am rôl y Goruchwyliwr Bydwagedd. Gwnaethant restru'r canlynol: amddiffyn y cyhoedd a staff, helpu menywod i gael y gofal maent am ei gael sydd y tu allan i'r cylch gwaith arferol, helpu i gael mynediad at gyfleodd dysgu, a helpu i fyfyrwyr ac ysgrifennu datganiadau. Os nad yw menyw yn hapus gyda'i gofal, gall bydwagedd eu cyfeirio at y Goruchwyliwr Bydwagedd. Mae Goruchwyliwr Bydwagedd wedi mynd i'r brifysgol, gan ddarparu cyfle da i ofyn unrhyw gwestiynau a lleisio unrhyw bryderon. Roedd yr anerchiad am gadw cofnodion yn werthfawr.

O ran newidiadau i oruchwyliaeth, roedd y myfyrwyr yn deall y symud o oruchwyliaeth statudol i oruchwyliaeth orfodol. Roedd Goruchwyliwr Bydwagedd wedi dod i'r brifysgol ac wedi egluro rhai o'r newidiadau. Roedd y myfyrwyr wedi derbyn sicrwydd y bydd goruchwyliwr o hyd ar ôl i'r gyfraith newid y flwyddyn nesaf.

### **Uwch-fydwagedd**

Nododd yr uwch-aelod o staff bydwreigiaeth y cyfwelwyd â hi fod y goruchwyliwr yn llawer mwy gweladwy a rhagweithiol nag a oeddent yn flaenorol. Dywedodd hi fod y goruchwyliwr sydd yn y swydd ar hyn o bryd yn dîm da. I ddechrau, yn ystod goruchwyliaeth grŵp, roedd diwallu anghenion staff ar bob gradd o fewn un sesiwn grŵp yn fwy heriol, ond oherwydd hwyluso medrus, mae hyn wedi cael ei wella. Roedd uwch-fydwagedd yn hoffi'r syniad o Oruchwyliwr Bydwagedd yn cyfrannu at adegau anodd mewn gyrfa bydwagedd, a bydd hyn o werth penodol i fydwagedd Band 5/preceptorialiaeth. Mae pecyn preceptorialiaeth eithriadol o dda ar waith ar hyn o bryd. Mae Goruchwyliwr Bydwagedd yn gweithio'n agos o gwmpas llywodraethu a risg, ac nid oes dwywaith na fydd y newidiadau ar ôl mis Ebrill y flwyddyn nesaf yn helpu i leihau dyblygu gwaith, yn enwedig ynghylch ymchwiliadau. Mae rhai amheuan ynglŷn â dod ag ymchwiliadau traws-fwrdd iechyd i ben, oherwydd bod gan y rhain y gallu i fod yn ffordd deg iawn o ymchwilio pan fydd pethau'n mynd o'u lle. Mae'r model presennol ar gyfer goruchwyllo bydwagedd yn llawer llai cosbol na'r system flaenorol, a'r gobaith yw y bydd hyn yn parhau yn y dyfodol.

### **Y tîm Goruchwyliwr Bydwagedd**

Mae'r tîm Goruchwyliwr Bydwagedd yn gweithio'n dda gyda'i gilydd er ei fod yn dîm newydd. Maent yn hygyrch ac yn cefnogi staff ar draws y bwrdd iechyd. Maent yn gadarnhaol ynglŷn â dyfodol goruchwyllo bydwagedd ac mae ganddynt sgiliau arwain da i helpu gyda'r broses o drosglwyddo i fodel newydd. Maent yn cael eu gwerthfawrogi gan y bwrdd iechyd, ac roeddent yn falch o nodi'r holl adborth cadarnhaol a roddwyd yn ystod yr archwiliad.

## 9 Crynodeb o'r Argymhellion

### Cydymffurfio â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Cafodd darpariaeth goruchwyliaeth effeithiol gan yr Awdurdod Archwilio Lleol o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ei thrafod â'r brif nyrs, Ruth Walker. Dywedodd y brif nyrs ei bod wedi'i sicrhau bod Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol yn gallu cyflawni ei swyddogaeth o fewn y bwrdd iechyd, a bod ganddo weithdrefn gynhwysfawr ar gyfer adrodd i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Roedd yn amlwg bod gan y brif nyrs ddealltwriaeth dda o'r gweithgareddau goruchwyllo, ac roedd yn hyderus eu bod yn ymgysylltu o fewn fframwaith llywodraethu'r bwrdd iechyd.

Rhannwyd cydnabyddiaeth y bu nifer o newidiadau o fewn yr AGLI ac yn lleol o fewn y tîm o oruchwylwyr; er hynny, cadarnhaodd y brif nyrs y byddai'r bwrdd iechyd yn parhau i gefnogi goruchwyliaeth, a'i bod yn edrych ymlaen at y model newydd lle y byddai'r gefnogaeth yn parhau.

Dywedodd Pennaeth Bydwreigiaeth ei bod hi'n fodlon bod y tîm o Oruchwylwyr Bydwagedd lleol yn lleisio pryderon mewn modd effeithiol ac yn ei hysbysu am eu pryderon yn ôl yr angen.

Roedd tystiolaeth o gyfarfodydd misol rhwng Pennaeth Bydwreigiaeth a'r tîm Goruchwylwyr Bydwagedd, a chadarnhaodd Pennaeth Bydwreigiaeth y byddai'r tîm yn mynd ati rhwng cyfarfodydd pe bai ganddynt unrhyw broblemau roeddent am eu trafod, am fod ganddi 'bolisi drws agored'.

Roedd Pennaeth Bydwreigiaeth wedi'i sicrhau bod y tîm Goruchwylwyr Bydwagedd yn rhyngweithio â phrosesau llywodraethu'r sefydliad, a chafodd hyn ei gadarnhau gan yr uwch-fydwagedd a'r Fydwraig Llywodraethu Mamolaeth a Phryderon.

Roedd Pennaeth Bydwreigiaeth yn cydnabod bod y tîm yn iau, ond roedd hi wedi nodi bod y tîm yn awyddus i ddatblygu a'u bod i gyd yn ymroddedig i'r newidiadau i'r model goruchwyllo ar gyfer y dyfodol.

### Ymarfer Bydwreigiaeth

Mae'r tîm o oruchwylwyr yn awyddus i fod yn fwy gweladwy o fewn yr amgylchedd clinigol, gyda'r nod o weithio wrth ochr bydwagedd clinigol, ac o ganlyniad, yn manteisio i'r eithaf ar rôl gynorthwyol goruchwyliaeth. Yn ogystal, roedd y tîm yn dangos dealltwriaeth dda o'r swyddogaeth statudol o fewn fframwaith llywodraethu, ac er eu bod yn cydnabod eu bod yn gwerthfawrogi'r cyfle i gynnal adolygiadau goruchwyllo allanol, nid oedd hyn wedi bod heb heriau, ar sail y pellter daearyddol roedd yn rhaid iddynt ei deithio.

Roedd yn amlwg ar ddiwrnod yr archwiliad bod y tîm yn awyddus i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu a monitro safonau bydwreigiaeth glinigol, a bydd hyn yn cael ei wella ymhellach pan fydd y model yn symud i fodel a arweinir gan gyflogwyr, a bydd 20% o'r rôl newydd yn cael ei ddyrannu i weithio wrth ochr bydwagedd sy'n ymarfer.

## Sefydliadol

Dywedodd y rheolwr risg fod presenoldeb goruchwyliol rheolaidd. Mae Goruchwylwyr Bydwagedd yn gweithio'n gydweithredol gydag arweinwyr risg a'r clinigwyr i gyfrannu at ymchwiliadau i ddigwyddiadau arwyddocaol.

## 10 Monitro

Mae'n ofynnol cyflwyno cynllun gweithredu i'r AGLI ymhen chwe wythnos i dderbyn yr adroddiad hwn a'r argymhellion. Os oes unrhyw feysydd nad ydynt wedi'u cyflawni, dylai'r cynllun gweithredu ynglŷn â'r rhain gael ei ddiweddarau bob chwarter a'i gyflwyno i'r AGLI i roi gwybod iddo am y cynnydd a wnaed.

Ar ôl i'r statud gael ei dileu, y bwriedir i'r broses fynd rhagddi ym mis Mawrth 2017, bydd y gwaith o fonitro'r cynllun gweithredu yn cael ei drosglwyddo i Bennaeth Bydwreigiaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Nodwyd bod y canlynol yn feysydd o arfer da gan dîm archwilio'r AGLI:

- Mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwagedd wedi atgyfnerthu'n dda, ac maent yn gweithredu'n effeithiol.
- Mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwagedd hefyd yn gwella eu gweladwyedd yn yr ardaloedd clinigol.
- Gwaith partneriaeth gyda Choleg Brenhinol y Bydwagedd i addysgu a rhoi'r datblygiadau diweddaraf i fydwagedd.
- Gwaith partneriaeth gyda Phrifysgol Caerdydd i sefydlu sesiynau addysgu ffurfiol gyda myfyrwyr-fydwagedd.
- Trefniadau a phresenoldeb gwell mewn sesiynau goruchwyliaeth grŵp.
- Addysgu parhaus ar y diwrnodau hyfforddiant gorfodol ar gyfer bydwagedd.

Mae tîm archwilio'r AGLI wedi tynnu sylw at yr argymhellion canlynol ynghylch meysydd i'w gwella:

- Er bod gweladwyedd clinigol y tîm Goruchwylwyr Bydwagedd wedi cynyddu, mae angen gwella hwn yn barhaus, gan ganolbwyntio ar roi cymorth i fydwagedd o fewn yr amgylchedd ymarfer clinigol – mae hyn yn arbennig o bwysig wrth i oruchwyliaeth symud o fodel statudol i fodel a arweinir gan gyflogwyr.



- Mae angen i'r tîm ystyried y strategaeth gyfathrebu ar gyfer bydwragedd a menywod (ac aelodau staff eraill) pan fydd y 'model newydd' yn cael ei lansio.
- Rhaid hysbysu'r switsfwrdd am y rhif ffôn ar alwad ar gyfer Cymru gyfan fel mater o flaenoriaeth, i sicrhau bod cymorth 24 awr ar gael i fenywod a bydwragedd.
- Gweithgareddau parhaus i weithio'n agos gyda'r Awdurdod Goruchwyllo Lleol ac arweinwyr llywodraethu gwybodaeth y bwrdd iechyd ynglŷn â chau cronfa ddata'r AGLI a gyriannau cyffredin goruchwyliaeth.

## 11 Casgliad

Mae'r AGLI yn parhau i fod yn ddiolchgar i bob Goruchwyllydd Bydwragedd, presennol a blaenorol, am eu cyfraniad a'u hymrwymiad i ddarparu goruchwyliaeth statudol, ac am y cyfraniad mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn ei wneud er mwyn cefnogi bydwragedd i gefnogi menywod. Hefyd, byddai tîm archwilio'r AGLI yn hoffi diolch i bawb am y lletygarwch a'r croeso a gafwyd gan bawb.

Hoffai'r AGLI ddiolch hefyd i Sue Jose, sy'n gadael ei swydd yn Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol ym mis Hydref 2016, a hoffai groesawu Lindsey Hilldrup, a fydd yn ymgymryd â'r swydd yn ei lle.

Yn sicr, yr her fwyaf o ran darparu goruchwyliaeth statudol ledled y DU yn y 12 mis diwethaf fu cynnal y momentwm a'r ymrwymiad i'r swydd tra bo newid deddfwriaethol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn dod i rym. Fodd bynnag, mae'r AGLI a'r Tasglu yng Nghymru yn dal i fod mewn sefyllfa i arwain y ffordd â model goruchwyllo newydd, gan adeiladu ar sail llwyddiannau presennol a chymorth cenedlaethol i gynnal rhagoriaeth mewn arferion clinigol.

Mae Pennaeth Bydwreigiaeth a'r Cyfarwyddwr Nyrsio yn awyddus i fynd â'r model newydd ar gyfer goruchwyliaeth yn ei flaen. Maent yn gwerthfawrogi'r cymorth mae'r Goruchwylwyr Bydwragedd yn ei roi i'r bydwragedd a'r myfyrwyr ac am gynnal y cysylltiadau agos â llywodraethu. Nid ystyrir y bydd y sefyllfa bresennol lle nad yw Goruchwylwyr Bydwragedd ar gael pan fyddant yn cynnal ymchwiliadau mewn bwrdd iechyd arall yn broblem yn y model newydd, gan na fydd goruchwylwyr yn rhoi'r un mewnbn wrth gynnal ymchwiliadau. Bydd hyn yn galluogi'r goruchwylwyr i fod yn fwy gweladwy a hygyrch yn eu bwrdd iechyd eu hunain i roi cymorth i bydwragedd, myfyrwyr a Phennaeth Bydwreigiaeth.

## 12 Atodiadau

### 12.1 Atodiad 1 – Rhaglen

AGLI Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Rhaglen ar gyfer Archwiliad Blyneddol o Safonau ar gyfer Goruchwyllo Bydwagedd

**Dyddiad:** Dydd Gwener, 4 Tachwedd 2016

**Lleoliad:** Ystafell Rianta, Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd

#### Tîm Adolygu'r AGLI:

Dee Davies, Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol ar gyfer Gogledd-orllewin Lloegr

Denise King, Bydwagedd yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol ar gyfer Gogledd-orllewin Lloegr

Louise Woolley, Adolygydd Lleyg

Elaine Derrick, Goruchwyllydd Bydwagedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Diwrnod 1		
Rhif	Amser	Gweithgaredd
1	8.30am	Cyrraedd a Choffi
2	9am	Tîm Adolygu A yn cwrdd â <b>Hwylusydd Mentoriaid Nerys Kirtley</b> Tîm Adolygu B yn cyfarfod â <b>Myfyrwyr-fydwagedd</b>
3	9.30am	Tîm Adolygu A yn cyfarfod â'r tîm <b>Goruchwylwyr Bydwagedd</b> Tîm Adolygu B yn <b>cerdded o gwmpas yr uned</b>
4	10am	Tîm Adolygu A yn cyfarfod â <b>Bydwraig Risg Laura Bassett</b> Tîm Adolygu B yn cyfarfod â <b>Bydwraig Pryderon Lois Mortimer</b>
5	10.30am	<b>Egwyl</b>
6	11am	Tîm Adolygu A yn cyfarfod â'r <b>Timau o Fydwagedd Cymunedol ar gyfer Dwyrain a Gorllewin Caerdydd</b> Tîm Adolygu B yn cyfarfod â <b>Darpar Oruchwylwyr Bydwagedd Natasha Thomas ac A. Oyler</b>

<b>7</b>	11.30am	Tîm Adolygu A yn cyfarfod â <b>Phennaeth Bydwreigiaeth Suzanne Hardacre</b>  Tîm Adolygu B yn cyfarfod â'r <b>Tîm o Fydwagedd Cymunedol ar gyfer Bro Morgannwg</b>
<b>8</b>	Hanner dydd	<b>Cinio</b>
<b>9</b>	12.45pm	Cyflwyniad gan dîm adolygu'r AGLI  Cyflwyniad gan Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI i nodi diben proses archwilio goruchwyliaeth 2015–16 a chyfeiriad goruchwyliaeth at y dyfodol a bennwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
<b>10</b>	1pm	Cyflwyniad trosolwg 15 munud a bwrdd darlunio gan oruchwylwyr bydwagedd lleol a fydd yn cynnwys:  <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Crynodeb o gynnydd o ran cyflawni'r dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer 2015-2016</li> <li>2. Enghreifftiau o arfer da a llwyddiannau'r tîm o oruchwylwyr bydwagedd</li> <li>3. Enghreifftiau o ddysgu gwersi/cau'r bwloch yn sgil ymchwiliadau goruchwyliaeth</li> <li>4. Meincnodi ar sail gwersi a ddysgwyd o Guernsey a Kirkup</li> </ol> 15 munud o Holi ac Ateb
<b>11</b>	1.30pm	Tîm Adolygu A yn cyfarfod â'r <b>Cyfarwyddwr Nyrsio Ruth Walker</b>  Tîm Adolygu B yn cyfarfod â <b>Valentina Cesari, Cadeirydd Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth</b>
<b>12</b>	2pm	Tîm Adolygu A yn cyfarfod ag <b>Uwch-fydwraig Ruth Guy</b>  Tîm Adolygu B yn cyfarfod â <b>chynrychiolydd gweithle Coleg Brenhinol y Bydwagedd, sef Ceri Philips</b>
<b>13</b>	2.30pm	Timau adolygu'n cwrdd â <b>bydwagedd a leolir mewn unedau mamolaeth</b>
<b>14</b>	3pm	<b>Egwyl</b>
<b>15</b>	3.30pm	Timau adolygu'r AGLI yn crynhoi eu canfyddiadau cychwynnol
<b>16</b>	4pm	Adborth gan Dîm Adolygu'r AGLI

## 12.2 Atodiad 2 – Holiadur yr AGLI

### Awdurdod Goruchwylio Lleol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Archwiliad Blynyddol o'r Safonau ynghylch Goruchwylio Bydwagedd  
Hydref 2016

Cyfweiliad â Goruchwylwyr Bydwagedd	Tystiolaeth a sylwadau'r tîm adolygu
<p>Rheol 4 Hysbysiadau gan yr AGLI A ydych yn rheoli proses y Bwriad i Ymarfer yn unol â'r broses bresennol</p>	<p>Tystiolaeth: Rhai'n dechrau Rhai'n gadael Trosglwyddiadau Dirymu'r Bwriad i Ymarfer Cronfa ddata'r AGLI – cyflwyno'n fisol</p>
<p>Ymateb</p>	<p>Sylw:</p>
<p>Rheol 5 Cwmpas yr ymarfer Sut rydych yn cynorthwyo bydwagedd i gyflawni Rheol 5; cwmpas eu hymarfer</p>	<p>Tystiolaeth Goruchwyliaeth grŵp Cynorthwyo bydwagedd i ddarparu dewisiadau i fenywod Cynorthwyo bydwagedd gyda Rhaglen Ymarfer yr AGLI/cynllun gweithredu ynghylch dulliau dysgu/myfyrio Pen bwrdd Bydwagedd mewn swyddi nad ydynt yn ymwneud â bydwreigiaeth</p>
<p>Ymateb</p>	<p>Sylw</p>

<p>Rheol 6 Cofnodion A allwch ddweud wrthym am eich cynllun i drosglwyddo a/neu archifo cofnodion er mwyn paratoi ar gyfer dileu goruchwyliaeth statudol.</p>	<p>Tystiolaeth Caiff cofnodion eu cadw'n ddiogel Mae'r cofnodion yn cael eu paratoi ar gyfer eu trosglwyddo/sganio a'u llwytho</p>
Ymateb	Sylw
<p>Rheol 7 Mae goruchwyliaeth ar fydwragedd wedi'i chysylltu'n agos â llywodraethu clinigol a dylai fod yn rhan annatod o brosesau llywodraethu y tu mewn i'r awdurdod goruchwyllo lleol. A allwch ddarparu manylion ynglŷn â sut rydych yn cyflawni'r safon hon</p>	<p>Tystiolaeth Presenoldeb mewn cyfarfodydd rheoli risgiau clinigol, fforwm wardiau esgor, cyfarfod adolygu Datix, ymchwiliadau ar y cyd, adolygiadau o ddigwyddiadau anffafriol difrifol, darparu hyfforddiant gorfodol</p>
Ymateb	Sylw
<p>Rheol 7 – Llywodraethu A ydych yn teimlo eich bod yn gallu uwchgyfeirio pryderon at: Y sefydliad Yr AGLI A ydych yn teimlo bod eich pryderon yn cael ymateb priodol</p>	Tystiolaeth
Ymateb	Sylw
<p>Rheol 9 Sut rydych yn sicrhau bod myfyrwyr-fydwragedd yn gallu cael gafael ar y tîm o oruchwylwyr bydwagedd A sut rydych yn cynorthwyo'r broses o drosglwyddo o fod yn fyfyrwr i fod yn gofrestrai</p>	
Ymateb	Sylw
<p>Rheol 10 Cyhoeddi gweithdrefnau – ymchwiliadau goruchwyllo A ydych o'r farn eich bod yn barod mewn cysylltiad ag addysg a hyfforddiant i gynnal</p>	<p>Tystiolaeth Proses Ysgrifennu adroddiadau</p>

ymchwiliadau yn unol â Rheol 10	Mynediad at hyfforddiant Mynediad at systemau TG
Ymateb	Sylw
<b>Cyfweliad â Phennaeth Bydwreigiaeth</b>	
A ydych o'r farn fod eich timau Goruchwylwyr Bydwreagedd yn mynegi pryderon yn briodol? Os nad ydych, a allwch awgrymu sut y gellir gwella hyn	
Ymateb	Sylw
O ystyried proses ymchwilio'r AGLI, pa mor fodlon ydych chi ar: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ddull y Goruchwylwr Bydwreagedd sy'n ymchwilio o gyfathrebu</li> <li>• Y broses o gyfathrebu â'r Goruchwylwr Bydwreagedd a enwir/sy'n cynorthwyo</li> <li>• Cysylltiadau rhwng yr AGLI a phrosesau sefydliadol</li> </ul>	
Ymateb	Sylw
A ydych yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn gyson am themâu a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg o sesiynau goruchwyliaeth grŵp	
Ymateb	Sylw
A ydych yn fodlon bod y tîm Goruchwylwyr Bydwreagedd yn rhyngweithio'n effeithiol â phroses lywodraethu'r sefydliad	
Ymateb	Sylw
I ba raddau ydych yn cydymffurfio ar hyn o bryd o ran presenoldeb bydwreagedd mewn hyfforddiant gorfodol?	
Ymateb	Sylw
Sut y mae Goruchwylwyr Bydwreagedd yn cynorthwyo'r broses ailddilysu ar gyfer bydwreagedd yn	

eich sefydliad	
Ymateb	Sylw
Yn eich barn chi, pa broblemau a fydd i'w cael o safbwynt y bwrdd iechyd yn ystod y broses o drosglwyddo o oruchwyliaeth statudol i fodel o oruchwyliaeth a arweinir gan y cyflogwr (y bwrdd iechyd).	
Ymateb	Sylw
A oes gennych unrhyw awgrymiadau ynghylch gwella ansawdd Goruchwylwyr Bydwagedd yn eich sefydliad?	
Ymateb	Sylw
<b>Cyfweliad â'r Cyfarwyddwr Nyrsio</b>	
A ydych wedi'ch sicrhau bod gan yr AGLI weithdrefn gynhwysfawr ar gyfer cyflwyno adroddiadau i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei rybuddio am bob risg sy'n gysylltiedig ag adroddiadau anffafriol yn sgil gwaith monitro allanol?	Rheol 7 Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol
Ymateb	Sylw
A allwch gadarnhau bod Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol yn gallu cyflawni ei swyddogaeth yn eich sefydliad?	
Ymateb	Sylw
A ydych wedi'ch sicrhau ynghylch cynaliadwyedd y model goruchwyliaeth presennol yn eich bwrdd iechyd	
Ymateb	Sylw

A ydych o'r farn fod yr AGLI yn effeithiol o ran crybwyll ac uwchgyfeirio pryderon a'i fod yn arfer ei rôl yn effeithlon, yn effeithiol ac mewn ffordd sy'n sicrhau diogelwch yr ymarfer bydwreigiaeth yn eich sefydliad?	
Ymateb	Sylw
A ydych wedi'ch sicrhau ynghylch cynaliadwyedd y model goruchwyliaeth presennol yn eich bwrdd iechyd	
Ymateb	Sylw
Yn eich barn chi, pa broblemau a fydd i'w cael o safbwynt y bwrdd iechyd yn ystod y broses o drosglwyddo o oruchwyliaeth statudol i fodel o oruchwyliaeth a arweinir gan y cyflogwr (y bwrdd iechyd).	
Ymateb	Sylw
A oes gennych unrhyw awgrymiadau ynghylch gwella ansawdd Goruchwylwyr Bydwagedd yn eich sefydliad ar ôl dileu goruchwyliaeth statudol?	
Ymateb	Sylw
<b>Bydwagedd ac Uwch-fydwagedd</b>	
A yw Goruchwylwyr Bydwagedd yn amlwg yn yr amgylchedd clinigol? A fydddech yn gwybod ble yn y bwrdd iechyd y gall Goruchwylwyr Bydwagedd fod i'w gael? Sut y bydddech yn cysylltu â Goruchwylwyr Bydwagedd y tu allan i oriau?	
Ymateb	Sylw
A ydych yn gwybod sut y mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwagedd yn cynorthwyo'r broses ailddilysu?	
Ymateb	Sylw



A ydych yn gwybod sut y mae'r Goruchwylwyr Bydwagedd yn cyd-fynd â phroses lywodraethu'r bwrdd iechyd?	
Ymateb	Sylw
Beth yw eich dealltwriaeth chi o'r newid arfaethedig o oruchwyliaeth statudol i fodel o oruchwyliaeth a arweinir gan y cyflogwr (y bwrdd iechyd).	
Ymateb	Sylw
Yn eich barn chi, pa broblemau a fydd i'w cael o safbwynt y bwrdd iechyd yn ystod y broses o drosglwyddo o oruchwyliaeth statudol i fodel o oruchwyliaeth a arweinir gan y cyflogwr (y bwrdd iechyd).	
Ymateb	Sylw
A oes gennych unrhyw awgrymiadau ynghylch gwella ansawdd Goruchwylwyr Bydwagedd yn eich sefydliad ar ôl dileu goruchwyliaeth statudol?	
Ymateb	Sylw
<b>Bydwagedd dan hyfforddiant</b>	
Allwch chi ddisgrifio rôl y Goruchwylwr Bydwagedd a'r Awdurdod Goruchwyllo Lleol?	
Ymateb	Sylw
A ydych wedi cael cyswllt â Goruchwylwr Bydwagedd yn y 12 mis diwethaf? Os felly, am ba reswm?	
Ymateb	Sylw

A ydych yn gwybod sut i gysylltu â Goruchwyliwr Bydwragedd?	
Ymateb	Sylw
A ydych yn ymwybodol o'r gofyniad statudol presennol i bob bydwaig fod â Goruchwyliwr Bydwragedd a enwir?	
Ymateb	Sylw
Beth yw eich dealltwriaeth chi o'r newid arfaethedig o oruchwyliaeth statudol i fodel o oruchwyliaeth a arweinir gan y cyflogwr (y bwrdd iechyd).	
Ymateb	Sylw

### **Rhestr wirio adolygwyr lleyg ar gyfer ymweliadau archwilio**

Diben y ddogfen hon yw galluogi'r adolygwyr lleyg i gynnal eu hymweliadau archwilio mewn ffordd sy'n gyson yn y tîm, sy'n adlewyrchu ac yn adeiladu ar sail canfyddiadau archwiliad 2015/16, ac sy'n ymgorffori'r newidiadau y gwyddys y byddant i'w cael yn y dyfodol i'r drefn o oruchwyllo bydwragedd. Er bod y rhestr wirio hon yn cwmpasu nifer o feysydd, disgwylir i'r adolygwyr lleyg gyflwyno sylwadau hefyd am unrhyw beth arwyddocaol y maent yn credu bod angen tynnu sylw ato yn ychwanegol at gynnwys y rhestr wirio hon.

Mae'r rhestr wirio hon yn cynnwys saith adran:

Gwaith paratoi cyn archwilio

Cwestiynau i fenywod a'u teuluoedd

Cwestiynau i Fydwragedd

Cwestiynau i Oruchwylwyr Bydwragedd

Cwestiynau i Uwch-reolwyr

Cwestiynau i gynrychiolwyr defnyddwyr

Sylwadau am yr amgylchedd

### **Gwaith paratoi cyn archwilio**

Adolygu'r wybodaeth ar wefan y bwrdd iechyd ynghylch Goruchwylio Bydwagedd.

Ai'r rhif ar-alwad cywir a ddangosir?

A oes disgrifiad clir o'r hyn y gall goruchwylwyr ei wneud i fenywod?

A oes dolen i wefan yr AGLI (AGIC)?

A oes dolen i'r daflen ynghylch cyflawni ("Delivering for You")?

Ar hap, dewiswch un o'r lleoliadau lle y mae gwasanaethau mamolaeth yn cael eu darparu gan y bwrdd iechyd a ffoniwch y switsfwrdd gan ofyn am rif ar-alwad y goruchwylwr bydwagedd.

Ai'r rhif ar-alwad cywir a roddir ichi?

### **Cwestiynau i fenywod a'u teuluoedd**

Ein cyflwyno ein hunain ac egluro proses yr archwiliad.

1. Beth yw eich barn am y gofal a gawsoch gan fydwagedd drwy gydol eich beichiogrwydd a'r enedigaeth?

2. A oes unrhyw fydwraig a fu'n arbennig o barod i helpu a beth a wnaeth a oedd o gymorth yn arbennig?  
Os enwir y fydwraig, a gawn drosglwyddo'r adborth hwn iddi / iddo?

3. A oes unrhyw beth yr hoffech ei newid, ar sail eich profiad?

4. A oes gennych chi, neu a gawsoch, unrhyw bryderon am unrhyw un o'r bydwagedd y cawsoch gyswllt â nhw?

**Os ateboch chi 'oes' neu 'do' i Gwestiwn 4, ewch i Gwestiynau 4a – 4h; os ateboch chi 'nac oes' neu 'naddo', ewch i Gwestiwn 5.**

- 4a A ydych wedi crybwyll eich pryderon wrth unrhyw un? Os ateboch chi **nac ydw, ewch i 4e**
- 4b Os felly, i bwy?
- 4c Sut y gwnaethoch benderfynu crybwyll eich pryder wrth y person hwnnw?
- 4d A oeddech yn fodlon ar y canlyniad?

Os oedd gennych bryderon ond na wnaethoch eu crybwyll wrth neb

- 4e A oeddech yn dymuno crybwyll eich pryder?
- 4f Beth a wnaeth eich atal rhag dweud wrth rywun am eich pryder?
- 4g A ydych wedi clywed am Oruchwylwyr Bydwagedd?
- 4h Eglurwch y rôl: a hoffech siarad â Goruchwyliwr Bydwagedd yn awr ynglŷn â'ch profiad?

5. Dychmygwch eich bod wedi cael pryder, er enghraifft fod arnoch eisiau math penodol o gynllun genedigaeth, a bod y fydwraig yn gwrthod ei drafod neu'n bod yn negyddol iawn yn ei gylch. Beth y byddech chi wedi'i wneud?

6. Pe baech wedi siarad â rhywun am eich pryder, beth y byddech chi am iddo'i wneud ynglŷn â'r mater?

## **Cwestiynau i Fydwragedd**

A gawsoch adolygiad goruchwylio blynyddol yn y 12 mis diwethaf?

A gafodd eich adolygiad goruchwylio blynyddol ei gwblhau yn ystod sesiwn goruchwyliaeth grŵp?

Os felly, faint a oedd yn rhan o'ch goruchwyliaeth grŵp?

A oedd ystod o fydwragedd yn yr oruchwyliaeth?

Beth a oedd o gymorth ichi yn yr oruchwyliaeth grŵp?

A oedd rhywbeth y gellid ei wella, yn eich barn chi?

Faint o sesiynau goruchwyliaeth grŵp y buoch ynddynt dros y ddwy flynedd ddiwethaf?

A ydych yn teimlo'n fwy cadarnhaol neu'n llai cadarnhaol ynglŷn â goruchwyliaeth grŵp yn awr nag yr oeddech ar ôl eich profiad cyntaf o oruchwyliaeth grŵp?

Yn eich barn chi, beth fu'r fantais fwyaf o gyflwyno goruchwyliaeth grŵp?

A ydych wedi defnyddio rhif ar-alwad y Goruchwylwr Bydwragedd i gysylltu â Goruchwylwr yn y 6 mis diwethaf?

Os gwnaethoch, sut oedd y profiad? A wnaeth ddatrys eich problem ar y pryd?

Fel y gwyddoch, bydd y drefn oruchwylio'n newid yn y gwanwyn. Pa elfennau o oruchwyliaeth fel y mae yn awr yr hoffech iddynt gael eu cadw?

A oes rhywbeth yr hoffech i oruchwyliaeth ei wneud nad yw'n ei wneud ar hyn o bryd?

A oes gennych unrhyw bryderon ynghylch y model newydd arfaethedig o oruchwyliaeth a arweinir gan y cyflogwr?

Pa mor dda y mae'r gwaith o baratoi ar gyfer trosglwyddo i'r trefniadau newydd yn mynd rhagddo, yn eich barn chi?

A oes unrhyw beth y mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn ei wneud sy'n arfer arbennig o dda, yn eich barn chi?

A allwn drosglwyddo eich adborth i'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd?

Yn eich barn chi, pa rôl y bydd y Goruchwylwyr Bydwragedd yn ei chwarae o ran helpu i leihau risgiau a dysgu gwersi yn sgil ymchwiliadau?

## **Cwestiynau i Oruchwylwyr Bydwragedd**

Pryd y byddwch yn cynnig goruchwyliaeth grŵp?

Beth yw'r manteision sy'n gysylltiedig â goruchwyliaeth grŵp, yn eich barn chi?

A oes unrhyw beth y byddech yn ei newid?

A allwch nodi enghraifft o rywbeth sydd wedi'i drafod mewn goruchwyliaeth grŵp ac sydd wedi gwella diogelwch y cyhoedd o ganlyniad?

A oes unrhyw beth y mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn ei wneud sy'n arfer arbennig o dda, yn eich barn chi?

Pa rôl rydych chi'n ei chwarae o ran helpu i leihau risgiau a dysgu gwersi yn sgil ymchwiliadau?

O gofio'r newid arfaethedig i fodol o oruchwyliaeth a arweinir gan y cyflogwr, beth, yn eich barn chi, yw'r manteision i

- a. Oruchwylwyr Bydwragedd
- b. Bydwragedd
- c. Menywod a'r cyhoedd

Ac a oes gennych unrhyw bryderon ynghylch y newidiadau a sut y byddant yn effeithio ar Oruchwylwyr Bydwragedd, bydwragedd a menywod?

Pa mor dda y mae'r gwaith o baratoi ar gyfer trosglwyddo i'r trefniadau newydd yn mynd rhagddo, yn eich barn chi?

Yn eich barn chi, beth y dylid ei roi ar waith i gymryd lle'r cymorth yr ydych yn ei gynnig i fenywod?

### **Cwestiynau i Uwch-reolwyr**

Pa mor wybodus ydych chi ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd i'r drefn oruchwylio yn awr a'r cynlluniau ar gyfer gwanwyn 2017 a thu hwnt?

Yn eich barn chi, beth yw'r heriau mwyaf o ran darparu goruchwyliaeth effeithiol yn awr ac yn y dyfodol?

Pa fanteision y mae goruchwyliaeth yn eu creu a sut y bydd y rhain yn gwella neu'n newid yn y dyfodol?

Pa drefniadau sy'n cael eu gwneud ar gyfer cynorthwyo menywod yn y dyfodol a fyddai'n cysylltu â goruchwylwr bydwagedd ar hyn o bryd?

### **Cwestiynau i gynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau mamolaeth**

Pa gyswllt sydd gennych chi â Goruchwylwyr Bydwagedd ar hyn o bryd?

Yn eich barn chi, pa mor effeithiol yw goruchwylwyr o ran cefnogi dewisiadau menywod neu eu cynorthwyo gyda chwynion neu ddygymod â phrofiadau anodd?

A ydych yn gwybod am y newidiadau arfaethedig i'r drefn o oruchwylio bydwagedd?

Yn eich barn chi, beth yw'r manteision sy'n gysylltiedig â'r model arfaethedig, yn arbennig o ran menywod a'u teuluoedd?

A oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig?

Yn eich barn chi, beth sydd ei angen ar fenywod i sicrhau eu bod yn gallu gwneud eu dewisiadau gwybodus eu hunain a chael cymorth pan fu pethau'n anodd?

## Sylwadau am yr amgylchedd

Pan arsylwyd arnynt:				
A yw gwybodaeth am Oruchwylwyr Bydwagedd wedi'i harddangos yn glir mewn ardaloedd cyhoeddus?				
A yw'r wybodaeth yn cynnwys y rhif ar-alwad Cymru gyfan cywir?				
A yw rôl y Goruchwylwr Bydwagedd wedi'i disgrifio'n gywir yn y wybodaeth sy'n cael ei harddangos?				
A oes esboniad clir o'r amgylchiadau pan ddylai defnyddwyr gwasanaethau gysylltu â'r Goruchwylwr Bydwagedd?				
A yw'r daflen Cymru gyfan ynghylch Goruchwylwyr Bydwagedd ar gael mewn ardaloedd cyhoeddus?				
Sylwadau ychwanegol ynghylch amlygrwydd				



Goruchwyliaeth.				
Sylwadau ychwanegol am yr amgylchedd				

## 12.3 Atodiad 3 – Holiadur yr Adolygydd Lleyg

### **Gwaith paratoi cyn archwilio Bwrdd Iechyd:**

Adolygwch y wybodaeth ar wefan y bwrdd iechyd ynghylch Goruchwylio Bydwagedd.

Ai'r rhif ar-alwad cywir sy'n cael ei ddarparu?  Oes? Ie  Nage

A oes disgrifiad clir o'r hyn y gall goruchwylwyr ei wneud i fenywod?  Oes   
Nac oes

A oes dolen i wefan yr AGLI (AGIC)? Oes  Nac

A oes dolen i'r daflen ynghylch cyflawni ("Delivering You")?  Oes  
Nac oes

### **Nodiadau**

Ar hap, dewiswch un o'r lleoliadau lle y mae gwasanaethau mamolaeth yn cael eu darparu gan y bwrdd iechyd a ffoniwch y switsfwrdd gan ofyn am rif ar-alwad y goruchwyliwr bydwagedd.

**Y lleoliad a alwyd:**

**Y rhif a ddefnyddiwyd:**

Ai'r rhif ar-alwad cywir a roddir ichi? Ie  Nac

### **Nodiadau**



## Cwestiynau i fenywod a'u teuluoedd

**Bwrdd Iechyd:**

**Lleoliad:**

1. Ble / sut y cawsoch eich gofal yn ystod eich beichiogrwydd? A fuoch yn fodlon ar y gofal hwn?

2. A oedd unrhyw beth a oedd yn dda iawn ynglŷn â'ch gofal? Neu unrhyw un a fu'n arbennig o barod i helpu?

3. A oes unrhyw beth y gellid ei wneud yn well?

4. A oes gennych unrhyw bryderon ynghylch unrhyw un o'r bydwagedd y cawsoch gyswllt â nhw?

5. Os cawsoch broblem yng nghyswllt bydwraig, neu eich gofal yn gyffredinol, a ydych yn gwybod at bwy y gallech droi neu i ble y gallech fynd i gael cymorth / cyngor?

6. A ydych wedi clywed am Oruchwylwyr Bydwagedd? Eglurwch pwy ydynt / beth ydynt a beth y maent yn gallu ei wneud. Darparwch wybodaeth am sut i ddod o hyd i'w manylion cyswllt yn y bwrdd iechyd / lleoliad penodol.

## **Cwestiynau i Fydwragedd**

Enw:

Swydd:

### **Goruchwyliaeth Grŵp**

1. A gawsoch adolygiad goruchwyllo blynyddol yn y 12 mis diwethaf, ac a gafodd ei gwblhau mewn goruchwyliaeth grŵp?

2. Trosolwg o'u goruchwyliaeth grŵp (faint, sut y'i trefnwyd, ystod y bydwragedd, unrhyw beth o gymorth, unrhyw beth y gellid ei wella?)

3. Faint o sesiynau goruchwyliaeth grŵp y buoch ynddynt dros y ddwy flynedd ddiwethaf? Mwy cadarnhaol neu'n llai cadarnhaol yn eu cylch? Y fantais fwyaf? Yr agwedd negyddol fwyaf?

### **Goruchwyliaeth ar-alwad**

4. A ydych wedi defnyddio rhif ar-alwad y Goruchwylwr Bydwragedd i gysylltu â Goruchwylwr yn y 6 mis diwethaf? Os ydych, sut oedd y profiad? A wnaeth ddatrys eich problem ar y pryd?

### **Ymchwiliadau**

5. Beth yw eich barn ynglŷn â rôl y Goruchwylwr Bydwragedd mewn ymchwiliadau? Cadarnhaol / negyddol? A ydynt yn helpu i leihau risgiau / dysgu gwersi? A gawsoch brofiad uniongyrchol o ymchwiliad?

## **Newidiadau i'r Drefn Oruchwylio**

6. A ydych yn gwybod am y newidiadau i'r drefn oruchwylio a fydd ar waith erbyn y gwanwyn nesaf? A ydych yn teimlo'n wybodus ynglŷn â'r newidiadau? A oes gennych unrhyw bryderon am y model newydd arfaethedig o oruchwyliaeth a arweinir gan y cyflogwr? Pa mor dda y mae'r gwaith o baratoi ar gyfer trosglwyddo i'r trefniadau newydd yn mynd rhagddo, yn eich barn chi?

7. Pa elfennau o'r model goruchwylio presennol y dylid eu cadw, yn eich barn chi? A oes unrhyw beth yr hoffech i oruchwyliaeth ei wneud nad yw'n ei wneud ar hyn o bryd?

8. A ydych yn gwybod sut y bydd menywod yn cael eu cynorthwyo o dan y model newydd?

## **Adborth**

9. A oes unrhyw beth y mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwagedd yn ei wneud sy'n arfer arbennig o dda, yn eich barn chi? A allwn drosglwyddo eich adborth i'r tîm Goruchwylwyr Bydwagedd?

## **Cwestiynau i Oruchwylwyr Bydwagedd**

### **Goruchwyliaeth Grŵp**

1. Sgwrs gyffredinol am eu goruchwyliaeth grŵp, sut y mae'n cael ei threfnu, presenoldeb, adborth ac yn y blaen.

2. Y manteision a'r heriau sy'n gysylltiedig â goruchwyliaeth grŵp?

3. Enghraifft o rywbeth sydd wedi'i drafod mewn goruchwyliaeth grŵp ac sydd wedi gwella diogelwch y cyhoedd o ganlyniad.

### **Ymchwiliadau**

4. Pa rôl rydych chi'n ei chwarae o ran helpu i leihau risgiau a dysgu gwersi yn sgil ymchwiliadau?

### **Arferion da**

5. A oes unrhyw beth y mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwagedd yn ei wneud sy'n arfer arbennig o dda, yn eich barn chi?





## Newidiadau i'r Drefn Oruchwyllo

6. A ydych yn teimlo eich bod yn wybodus ynglŷn â'r newidiadau i'r drefn oruchwyllo? A yw'r wybodaeth hon yn cael ei dosbarthu yn y sefydliad? Pa mor dda y mae'r gwaith o baratoi ar gyfer trosglwyddo i'r trefniadau newydd yn mynd rhagddo, yn eich barn chi?

7. O gofio'r newid arfaethedig i fodol o oruchwyliaeth a arweinir gan y cyflogwr, beth, yn eich barn chi, yw'r manteision i:

- a. Oruchwylwyr Bydwagedd
- b. Bydwagedd
- c. Menywod a'r cyhoedd

8. A oes gennych chi unrhyw bryderon am y newidiadau a sut maent yn effeithio ar Oruchwylwyr Bydwagedd, bydwagedd a menywod?

9. Beth rydych chi'n credu a ddylai fod ar waith yn lle'r cymorth rydych yn ei gynnig i fenywod? A yw eich sefydliad yn gwneud unrhyw gynlluniau yn y maes hwn?

### **Cwestiynau ar gyfer uwch-reolwyr**

1. Pa mor wybodus ydych chi ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd i'r drefn oruchwylio yn awr a'r cynlluniau ar gyfer gwanwyn 2017 a thu hwnt?

2. Yn eich barn chi, beth yw'r heriau mwyaf o ran darparu goruchwyliaeth effeithiol yn awr ac yn y dyfodol?

3. Pa fanteision y mae goruchwyliaeth yn eu creu a sut y bydd y rhain yn gwella neu'n newid yn y dyfodol?

4. Pa drefniadau sy'n cael eu gwneud ar gyfer cynorthwyo menywod yn y dyfodol a fyddai'n cysylltu â goruchwylwr bydwagedd ar hyn o bryd?

## **Cwestiynau i gynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau mamolaeth**

Enw:

Sefydliad:

1. A ydych yn gwybod beth yw Goruchwyliwr Bydwagedd? A roddir gwybod i chi / eich sefydliad am Oruchwyliaeth? Pa gyswllt sydd gennych / a fu gennych â Goruchwylwyr Bydwagedd?
2. A ydych yn gwybod pa mor effeithiol yw goruchwylwyr o ran cefnogi dewisiadau menywod neu eu cynorthwyo gyda chwynion neu ddygymod â phrofiadau anodd?
3. A ydych yn meddwl bod menywod yn gwybod am Oruchwyliaeth a Goruchwylwyr Bydwagedd?
4. A ydych yn gwybod am y newidiadau arfaethedig i'r drefn o oruchwyllo bydwagedd?
5. Yn eich barn chi, beth yw'r manteision / anfanteision sy'n gysylltiedig â'r model arfaethedig, yn arbennig o ran menywod a'u teuluoedd?
6. Yn eich barn chi, beth sydd ei angen ar fenywod i sicrhau eu bod yn gallu gwneud eu dewisiadau gwybodus eu hunain a chael cymorth pan fu pethau'n anodd?

7. Yn eich barn chi, beth yw'r ffordd orau o ddsbarthu gwybodaeth i fenywod a'u teuluoedd?

**Gwybodaeth am Oruchwylwyr Bydwagedd a sylwadau am yr amgylchedd**

<b>Lleoliad</b>		
A yw gwybodaeth am Oruchwylwyr Bydwagedd yn glir mewn ardaloedd cyhoeddus?		
Ai'r rhif ar-alwad Cymru gyfan cywir a ddangosir?		
A yw rôl y Goruchwyliwr Bydwagedd wedi'i disgrifio'n gywir yn y wybodaeth?		
A oes esboniad clir o'r amgylchiadau pan ddylai defnyddwyr gwasanaethau gysylltu â Goruchwyliwr Bydwagedd?		
A yw'r daflen Cymru gyfan ynghylch Goruchwylwyr Bydwagedd ar gael mewn ardaloedd cyhoeddus?		
Sylwadau eraill ynghylch amlygrwydd Goruchwyliaeth / Goruchwylwyr		
Sylwadau cyffredinol am yr amgylchedd		

--	--	--





